



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



---


# Cymru Iachach:

## ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol

---

# Cynnwys

Rhagair	1
<hr/>	
Cyflwyniad	2
<hr/>	
Crynodeb gweithredol	3
<hr/>	
Ein Gweledigaeth at y Dyfodol	4
Gwerthoedd	4
Cyflawni ein Gweledigaeth	5
<hr/>	
Sut y byddwn yn sicrhau newid	15
Y Nod Pedwarplyg	15
Egwyddorion Cynllunio	15
Modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol di-dor	18
Rhaglen Drawsnewid	21
<hr/>	
Sicrhau bod ein system yn barod at y dyfodol	22
Gwella Ansawdd a Gwerth	22
Digidol a data	24
Cyllid iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy	26
Cysylltiad parhaus	29
Y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol	30
Arweiniad a chyfeiriad cenedlaethol	32
<hr/>	



Gyda chefnogaeth drawsbleidiol, comisiynodd Llywodraeth Cymru Adolygiad Seneddol o Ddyfodol Hirdymor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ddiweddar. Galwodd panel rhyngwladol o arbenigwyr, dan gadeiryddiaeth Dr Ruth Hussey, am “chwyldro o’r tu mewn” i ysgogi’r newidiadau sydd eu hangen i’n system iechyd a gofal cymdeithasol, er mwyn medru diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau’r dyfodol yng Nghymru. Mae’r cynllun hwn yn ymateb i adroddiad yr Adolygiad Seneddol.

Pan gafodd ei sefydlu 70 mlynedd yn ôl, wedi’i ysbrydoli gan Aneurin Bevan a model Cymdeithas Cymorth Meddygol Tredegar, roedd y GIG yn arloesol, yn ddewr ac yn radical. Trawsnewidiwyd gwasanaethau iechyd i filiynau o bobl. Daeth â sicrwydd a diogelwch, yn arbennig i’r rhai oedd angen y gwasanaethau hynny fwyaf. Gwnaeth yn siŵr bod y gwasanaethau yn cyrraedd yr un safonau cenedlaethol i bawb, ym mhob man, ar sail angen yn hytrach na’r gallu i dalu.

Ond mae’r byd wedi newid bellach, ac yn dra gwahanol i’r un y cynlluniwyd y GIG ar ei gyfer yn wreiddiol. Mae pobl yn byw’n hirach, gall meddyginiaeth wneud llawer mwy, mae technoleg yn trawsnewid ein ffordd o fyw, ac mae disgwyliadau wedi newid. Dim ond un agwedd fach iawn o iechyd a gofal cymdeithasol modern yw trin pobl mewn ysbytai pan fyddant yn sâl.

Ein huchelgais bellach yw dod â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd, er mwyn iddynt gael eu cynllunio a’u darparu yn unol ag anghenion a dewisiadau unigolion, gan roi mwy o bwyslais ar gadw pobl yn iach. Rydym am weld gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu drwy un system gyfan ddi-dor. Dylai gwasanaethau gwahanol ddarparwyr gael eu cydlynu’n ddi-dor,

ac fe ddylem edrych y tu hwnt i’r gwasanaethau i wneud gwahaniaeth i’r ffactorau cymdeithasol ac economaidd sy’n dylanwadu ar iechyd, llesiant a chyfleoedd bywyd.

Nid yw hon yn her y gall Llywodraeth Cymru, GIG Cymru na llywodraeth leol ei hwynebu wrth eu hunain. Bydd angen partneriaethau ehangach a dyfnach, sgiliau newydd a ffyrdd newydd o weithio, a bydd angen i bobl gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu hiechyd a’u llesiant eu hunain. Efallai y bydd hefyd angen newid sut y byddwn yn talu am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Ni fydd unrhyw un o’r newidiadau hyn yn rhai cyflym na rhwydd. Bydd angen synnwyr cryf o bartneriaeth a gwerthoedd cyffredin, dros nifer o flynyddoedd.

Rydym yn cydnabod y bydd yn her cyflawni dyheadau’r cynllun hwn, ond credwn fod modd gwneud hynny os gallwn ailddarganfod yr hyder a’r uchelgais beiddgar a arweiniodd at weld Cymru yn cyflwyno’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol gorau erioed i’r byd.

### **Vaughan Gething**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### **Huw Irranca-Davies**

Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol



Disgrifiodd yr Adolygiad Seneddol y galwadau cynyddol a'r heriau newydd sy'n wynebu'r GIG a gofal cymdeithasol – poblogaeth sy'n heneiddio, newidiadau i ffyrdd o fyw, disgwyliadau'r cyhoedd a thechnolegau meddygol newydd. Roedd yr Adolygiad yn dadlau'n gryf bod gwasanaeth sydd wedi'i seilio'n bennaf ar fodel meddygol o iechyd, a system o ofal cymdeithasol ar wahân, yn anaddas ar gyfer y dyfodol. Mae angen newid nawr, nid ar ryw ddyddiad ymhell yn y dyfodol. Rhaid i ni ganolbwyntio ar drawsnewid, arloesi a chyflawni gan wybod bod gennym sylfeini cadarn i adeiladu arnynt yn ein system bresennol. Heb ymateb a newid, ni fyddwn yn llwyddo i gyflawni anghenion poblogaeth Cymru.

Mae Cymru wedi gwneud dewisiadau neilltuol. Rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu trefnus, gan sefydlu Byrddau Iechyd Lleol integredig a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol statudol. Llwyddodd hyn i ganiatáu modelau cymdeithasol o ofal yn y gymuned, sy'n croesi ffiniau traddodiadol sefydliadau a gwasanaethau. Mae pwerau deddfwriaethol newydd wedi arwain at *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)*, *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)*, *Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)* a chamau gweithredu arloesol ar smygu mewn manau cyhoeddus a rhoi organau. Yn *Ffyniant i Bawb*, y strategaeth genedlaethol ar gyfer tymor 5 mlynedd y Cynulliad hwn, mae Llywodraeth Cymru yn gosod ymrwymiad "iechyd ym mhob polisi", i wneud gwahaniaeth i ffactorau cymdeithasol ac economaidd ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd fel tai, rhianta, addysg a chyflogadwyedd.

Nawr mae angen cyflymu'r newid, yn hytrach na mynd mewn cyfeiriad gwahanol. Gan ddefnyddio'r syniad o'r Nod Pedwarplyg, gyda chefnogaeth Egwyddorion Cynllunio ymarferol, bydd modd i ni ganolbwyntio ar bob lefel ar gyflawni ein gweledigaeth at y dyfodol. Drwy weld arloesi lleol yn datblygu i fod yn fodelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol di-dor, byddwn yn cyflwyno syniadau newydd a gwell ffyrdd o weithio ar lefel rhanbarthol ac yna lefel genedlaethol. Bydd Rhaglen Drawsnewid genedlaethol yn cyflymu a chynnig strwythur i'r newid ar draws ein holl system.

Byddwn yn ymwreiddio newid ar draws ein holl system, fel bod modd wynebu heriau a chyfleoedd yn y dyfodol, a bod yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Yn bwysicaf oll, bydd hyn yn buddsoddi mewn pobl sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn gwneud Cymru'n lle ardderchog i weithio. Bydd yn datblygu cysylltiad parhaus â nhw ac â'r cyhoedd yn ehangach, er mwyn i ni fedru mynd i'r afael â'r dewisiadau anodd sydd o'n blaen gyda'n gilydd, fel partneriaid. Bydd arweiniad a chyfeiriad cadarn yn genedlaethol yn helpu gyda'r newidiadau hyn, gan ein galluogi i gydio ym mhotensial llawn ein system integredig a'n dull o gynllunio, ond bydd y prawf go-iawn yn dod wrth ddarparu gwasanaethau a chanlyniadau gwell ar draws Cymru.

### **Andrew Goodall**

Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Prif Weithredwr GIG Cymru

### **Mae'r cynllun hwn yn gosod gweledigaeth hirdymor ar gyfer 'system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol' yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar iechyd a llesiant ac atal salwch.**

**Byddwn yn adeiladu ar athroniaeth Gofal Iechyd Darbodus, ac ar sawl perthynas agos ac effeithiol sydd gennym yng Nghymru, i effeithio ar iechyd a llesiant drwy gydol oes. Byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar atal salwch, ar helpu pobl i reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, ac ar alluogi pobl i fyw'n annibynnol cyhyd ag y bo modd, gyda chymorth technolegau newydd a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n cael eu darparu yn nes at y cartref.**

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, byddwn yn datblygu 'modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol di-dor', o lefel lleol i lefel genedlaethol. Bydd y modelau hyn yn adeiladu ar sylfaen o arloesi lleol, gan gynnwys drwy Glystyrau o ddarparwyr gofal sylfaenol a chymunedol. Bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, sy'n dod ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd a darparwyr trydydd sector ynghyd, yn chwarae rhan gref yn goruchwylio ac yn cydlynu. Bydd gwaith partneriaeth rhanbarthol yn elfen bwysig o'r ffordd y byddwn yn datblygu modelau integredig, uchel eu gwerth o iechyd a gofal cymdeithasol, a fydd yn cael eu hyrwyddo i'w mabwysiadu yn ehangach ar draws Cymru.

Bydd Rhaglen Drawsnewid genedlaethol yn sicrhau bod newid yn digwydd yn gyflym, ac yn bendant, ar draws Cymru. Bydd y Rhaglen Drawsnewid yn gyfrifol am gyflawni'r ymrwymadau yn y cynllun hwn, gan ganolbwyntio ar ddangos effaith gynnar dros dair blynedd, er mwyn adeiladu'r momentwm angenrheidiol i symud y system gyfan tuag at

gyflawni ein gweledigaeth yn y tymor hir. Bydd yn darparu cyllid ac adnoddau penodol i gyflymu'r cynnydd, gan gynnwys drwy Gronfa Drawsnewid benodol gwerth £100m.

Byddwn yn cryfhau arweiniad a chyfeiriad cenedlaethol, ynghyd â ffocws rhanbarthol ar ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn lleol. Bydd swyddogaeth pwyllgor gweithredol cenedlaethol newydd yn cyflymu penderfyniadau ac yn galluogi i'r system ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys cynllunio ar y cyd ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, gyda chefnogaeth ysgogiadau i newid a datganiadau ansawdd.

Byddwn yn sicrhau bod y system gyfan yn 'barod at y dyfodol' fel bod modd ymateb yn gynt i heriau a chyfleoedd y dyfodol. Byddwn yn cynyddu ein buddsoddiad mewn technolegau digidol fel ffordd bwysig o hwyluso newid. Byddwn yn parhau i gefnogi a buddsoddi yn natblygiad y gweithlu iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector gan gynnwys gofalwyr di-dâl a gwirfoddolwyr. Byddwn yn parhau i geisio sicrhau ansawdd a gwerth drwy gydlynu ein gwaith ymchwil, arloesi a gwella.

Bydd y gwaith hwn, a'n system yn y dyfodol, yn seiliedig ar athroniaeth gyffredin gadarn a chysylltiad parhaus. Gosodwyd gwerthoedd cyffredin ar gyfer y system gyfan, ac fe fyddwn yn defnyddio deg Egwyddor Cynllunio i drosi ein hathroniaeth Gofal Iechyd Darbodus a syniad canolog y Nod Pedwarplyg yn arfau ymarferol a fydd yn helpu i gysoni'n holl weithgarwch trawsnewid ar bob lefel. Drwy gadw mewn cysylltiad cyson a chynnal sgwrs barhaus gyda phobl Cymru gallwn yn sicrhau bod gan bawb lais yn ein trefn system gyfan a'r ffordd y mae'n datblygu.

## Ein Gweledigaeth at y Dyfodol

Dyweddod Panel yr Adolygiad Seneddol bod gweledigaeth gref ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol yn allweddol wrth drawsnewid i drefn system gyfan integredig. Mae'n gweledigaeth wedi'i seilio ar ofal iechyd darbodus fel prif athroniaeth, ar waith yr Adolygiad Seneddol ac ar ein cysylltiad gydag arweinwyr, staff a'r cyhoedd ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

**“Ein gweledigaeth yw y dylai pawb yng Nghymru gael bywydau hirach, iachach a hapusach, a medru parhau i gadw'n brysur a bod yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain cyhyd â phosib.**

Byddwn yn edrych ar iechyd a gofal cymdeithasol fel system gyfan, gyda'r gwasanaethau yn un elfen yn unig wrth gefnogi pobl i fwynhau gwell iechyd a llesiant drwy gydol eu bywydau. Bydd yn system 'iachurwydd' sy'n ceisio cefnogi a rhagweld anghenion iechyd, atal salwch a lleihau effaith iechyd gwael.

Bydd y system gyfan yn deg. Bydd gwasanaethau a chymorth yn darparu'r un gofal o ansawdd uchel, ac yn cyflawni canlyniadau iechyd cyfartal, i bawb yng Nghymru. Byddant yn gwella llesiant corfforol

a meddyliol pawb, drwy gydol eu bywydau, o'u genedigaeth hyd at ddiwedd urddasol.

**Pan fydd pobl angen cymorth, gofal neu driniaeth, bydd modd iddynt ddefnyddio amrywiol wasanaethau di-dor, sy'n cael eu darparu mor agos â phosibl at y cartref. Bydd gwasanaethau'n cael eu llunio o amgylch yr unigolyn a grwpiau o bobl, ar sail eu hanghenion unigryw a'r hyn sy'n bwysig iddynt, yn ogystal â chanlyniadau ansawdd a diogelwch.**

Bydd pobl ond yn mynd i ysbyty cyffredinol pan fo hynny'n hanfodol. Bydd gwasanaethau ysbytai yn cael eu llunio i leihau'r amser sy'n cael ei dreulio yn yr ysbyty, a chyflymu adferiad. Bydd symud y pwyslais at adnoddau yn y gymuned yn golygu bod modd cyrraedd at ofal mewn ysbyty yn gynt pan fo angen hynny.

Yn sgil y pwyslais ar ysgogi newid a gwelliant, y pwyslais ar lesiant, atal ac ymyrryd yn gynnar, ac ar ddefnyddio technoleg i gefnogi gwasanaethau o ansawdd uchel, bydd y system gyfan yn fwy effeithiol, effeithlon a theg, ac felly'n fwy cynaliadwy i genedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.”

### Gwerthoedd

Mae'n bwysig i ni osod uchelgais ar gyfer cynnydd a gwelliant gan ymateb i'r heriau sy'n cael eu gosod ar y system bresennol. Byddwn yn annog trawsnewid drwy werthoedd sy'n canolbwyntio ar bobl Cymru,

ac ar ddarparu'r gwasanaethau cyhoeddus gorau posib, gan ein helpu i wneud gwell dewisiadau ynghylch sut, ble a phryd i ddarparu cymorth a gwasanaethau. Y gwerthoedd craidd sy'n sail i'r GIG yng Nghymru yw:

### Gwerthoedd craidd GIG Cymru

**Rhoi ansawdd a diogelwch uwchlaw popeth** – darparu gofal gwerth uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ein cleifion bob amser.

**Integreiddio gwelliant yn ein gwaith bob dydd** a dileu niwed, gwahaniaethu a gwastraff.

**Canolbwyntio ar atal, gwella iechyd ac anghydraddoldeb** er mwyn hyrwyddo datblygu cynaliadwy, iechyd a lles ymhlith pobl Cymru a phlant eu plant.

**Gweithio mewn partneriaethau go iawn** â sefydliadau eraill a'n staff.

**Buddsoddi yn ein staff** drwy eu hyfforddi a'u datblygu, gan ei gwneud yn bosibl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau a rhoi'r adnoddau, y systemau a'r amgylchedd iddynt weithio'n ddiogel ac yn effeithiol.

Mae'r gwerthoedd hyn yn sylfaen dda ar gyfer y cymeriad a'r diwylliant neilltuol yr ydym am eu gweld ar draws ein holl system iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Ond bydd symud oddi wrth y ffordd y mae'r gwasanaethau'n cael eu trefnu heddiw at drefn system gyfan yn gofyn am ymrwymiad ac uchelgais

ar draws yr holl ddarparwyr, gan gynnwys y trydydd sector a phartneriaid busnes. Rydym am gynnwys pawb yn y gwaith o ddatblygu'r gwerthoedd a'r blaenoriaethau cyffredin sydd eu hangen i gyflawni ein gweledigaeth at y dyfodol:

### **Gwerthoedd system gyfan arfaethedig**

**Cydlynu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ddi-dor** o amgylch anghenion a dewisiadau'r unigolyn, fel nad oes gwahaniaeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau unigol.

---

**Mesur canlyniadau iechyd a llesiant sy'n bwysig i bobl** a defnyddio'r wybodaeth honno i geisio gwella a gwneud gwell penderfyniadau ar y cyd.

---

**Helpu pobl yn rhagweithiol** drwy gydol eu bywydau, ledled Cymru gyfan, gan wneud ymdrech arbennig i gyrraedd at y rhai mwyaf anghenus er mwyn helpu i leihau'r anghydraddoldebau iechyd a llesiant sy'n bodoli.

---

**Ysgogi trawsnewid** drwy arweinyddiaeth gadarn a phenderfyniadau clir, mabwysiadu arfer da a modelau newydd yn genedlaethol, cysylltiad agored a hyderus â phartneriaid allanol.

---

**Hyrwyddo gwerthoedd a diwylliant neilltuol** trefn system gyfan Cymru gyda balchder, gan ddangos sut mae gwahanol ddewisiadau yn arwain at ganlyniadau teg ac yn gwneud Cymru'n well lle i fyw a gweithio.

Bydd y gwerthoedd cyffredin hyn yn sicrhau y byddwn ni oll yn falch o'r system iechyd a gofal sydd gennym yng Nghymru. Yn falch o'r hyn y mae'n ei gyflawni, ac yn falch o'r ffordd y mae'n parhau i gyflawni yn unol ag egwyddorion sylfaenol Aneurin Bevan. Byddwn yn rhannu perchnogaeth dros ein system iechyd a gofal, ac fe fydd modd i ni gyfrannu at y ffordd mae'n datblygu, fel y gallwn ni i gyd fel unigolion a chymunedau helpu i'w gryfhau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### **Cyflawni ein Gweledigaeth**


Yn yr adran hon rydym yn disgrifio sut yr ydym yn disgwyl i rai elfennau o'r weledigaeth hon a'r drefn system gyfan edrych. Ond nid yw'n gynllun cwbl anhyblyg ar gyfer popeth – mae gormod o wahanol wasanaethau, wedi'u darparu ar draws amrywiol leoliadau, ac fe fyddant yn esblygu mewn ffyrdd na allwn eu rhagweld yn bendant heddiw, gan ddefnyddio technolegau fel deallusrwydd artifisial neu ddiagnostig genetig. Bydd yr hyn y mae pobl ei angen ac yn ei ddisgwyl gan iechyd a gofal cymdeithasol hefyd yn newid dros y degawd nesaf.

Bydd amrywiol wasanaethau a chymorth ar gael, o hyrwyddo rhaglenni cenedlaethol ar iechyd poblogaethau i gymorth llesiant personol. Byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau priodol ar gyfer anghenion unigol yn cael eu darparu ar lefel gofal sylfaenol a chymunedol. Bydd cyfleusterau a gwasanaethau iechyd lleol yn canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar, ac ar ofal a chymorth di-dor i bobl pan fo'i angen. Darperir mynediad i ysbyty, ac yn bwysicach fyth ar lefel ysbyty arbenigol, pan fydd angen mwy na'r cymorth lleol sydd ar gael, a dros amser bydd hyn yn newid dibyniaeth y system ar wasanaethau ysbyty traddodiadol.

Yn yr un modd, bydd ein trefn system gyfan yn cynnwys newid yn y berthynas draddodiadol rhwng 'cleifion' neu 'ddefnyddwyr gwasanaethau' a 'darparwyr'. Bydd y sgwrs yn newid i ddechrau drwy ofyn 'beth sy'n bwysig i chi?' ac yn arwain at drafodaeth ynghylch sut gall pobl eu hunain gyfrannu at well iechyd, gan adlewyrchu ein hathroniaeth Gofal Iechyd Darbodus.







## Bywydau Hirach, Iachach a Hapusach

**Fel rhan o'r cydweithio i gyflawni ein gweledigaeth at y dyfodol, rhaid i bobl gymryd mwy o gyfrifoldeb, nid yn unig dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, ond hefyd dros eu teuluoedd a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt, efallai hyd yn oed eu ffrindiau a'u cymdogion.**

Mae'r dewisiadau y mae unigolion yn eu gwneud yn dylanwadu'n sylweddol ar ganlyniadau iechyd, fel eu teimlad o reolaeth dros y dewisiadau hynny. Dangosodd astudiaeth enwog Carfan Caerffili effaith 'ffactorau bywyd' fel peidio smygu, osgoi goryfed, cadw at bwysau iach, deiet da ac ymarfer corff. Fel rhan o'r cydweithio i gyflawni ein gweledigaeth at y dyfodol, rhaid i bobl gymryd mwy o gyfrifoldeb, nid yn unig dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, ond hefyd dros eu teuluoedd a'r bobl y maent yn

gofalu amdanynt, efallai hyd yn oed eu ffrindiau a'u cymdogion. Byddwn yn hwyluso hyn drwy gysylltu mewn gwahanol ffyrdd, fel defnyddio cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau digidol, ynghyd â gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n effeithio ar ymddygiad a'r dewisiadau a wnawn.

Mae trefn gadarn ar gyfer iechyd y cyhoedd yn allweddol er mwyn sicrhau cymdeithas iach, er bod technolegau newydd yn caniatáu gwasanaethau iechyd mwy personol. Drwy ein gwaith 'baich afiechyd yng Nghymru' a adolygwyd yn ddiweddar, rydym bellach yn gwybod mwy am ba drefniadau iechyd y cyhoedd sydd fwyaf effeithiol. Gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon a dysgu oddi wrth welliannau ar draws Cymru, byddwn yn ysgogi arferion da ar draws gwahanol leoliadau, i leihau anghydraddoldebau iechyd a gwella canlyniadau iechyd y cyhoedd. Bydd ein system yn y dyfodol hefyd yn parhau i ddarparu rhaglenni cadarn ar imiweiddio ac iechyd y cyhoedd dan fframwaith cenedlaethol cyson, gan gynnwys hyrwyddo gwell dealltwriaeth o beryglon iechyd, haint a'r amgylchedd.



Mae gwella iechyd a llesiant pawb yng Nghymru yn rhywbeth y gallwn ni oll gyfrannu tuag ato, drwy fath newydd o waith mewn partneriaeth gyhoeddus. Dylai'r gwaith hwn ddechrau'n gynnar – o'r cyfnod cyn geni a'r 1000 diwrnod cyntaf, ymlaen at ddylanwad cwricwlwm ysgol newydd lle byddwn yn ehangu ar y Rhaglen Ysgolion Iach Bresennol i gynnwys dewisiadau bywyd iach ac egniol, cadernid meddyliol a sgiliau rheoli bywyd eraill fel rhan o addysg pobl ifanc. Rhaid i hyn barhau drwy gydol bywyd fel oedolyn, gan gynnwys drwy fentrau fel Cymru Iach ar Waith sy'n helpu cyflogwyr ar draws Cymru i wella iechyd a llesiant yn y gwaith, a thrwy helpu pobl i gynllunio'n effeithiol ar gyfer eu hanghenion tai a gofal yn y tymor hir.

## **System gyfan iechyd a gofal cymdeithasol**

---

**Byddwn yn edrych ar iechyd a gofal cymdeithasol fel un system gyfan, gyda'r gwasanaethau yn un elfen yn unig wrth gefnogi pobl i fwynhau gwell iechyd a llesiant drwy gydol eu bywydau. Bydd yn system 'iachusrwydd' sy'n ceisio cefnogi a rhagweld anghenion iechyd, atal salwch a lleihau effaith iechyd gwael.**

---

Dros y degawd nesaf, byddwn yn gweld gwasanaethau yn symud o ysbytai i gymunedau, ac o gymunedau i gartrefi. Bydd pobl yn cael cymorth i barhau i gadw'n brysur a bod yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain cyn hired â phosibl. Bydd llawer o'r newid hwn o ganlyniad i gynnal iechyd da, gyda mwy o bwyslais ar atal salwch. Bydd modelau cymunedol

newydd o iechyd a gofal cymdeithasol yn cyfuno'n ddi-dor gyda thechnolegau cymorth a monitro o bell, fel bod modd i bobl gael yr un gofal o ansawdd uchel yn eu cartrefi â'r hyn y byddent yn ei gael mewn lleoliad gofal preswyl, neu mewn ysbyty.

Bydd gofal preswyl yn newid dros amser, gan alluogi ac annog pobl i adfer eu hannibyniaeth pryd bynnag y bo'n bosib. Pan fo anghenion neu amgylchiadau pobl yn golygu nad oes modd iddynt fyw yn eu cartrefi eu hunain, neu os mai'r ffordd orau o amddiffyn eu llesiant yw gofalu amdanynt mewn lleoliad arall, gallant ddisgwyl cael gofal o ansawdd uchel – ar draws yr holl system, bydd amrywiol gymorth mewn gwahanol leoliadau, a fydd yn cael ei ddarparu mewn ffordd bersonol i ddiwallu anghenion a dewisiadau pobl. Bydd hyn yn galluogi ac yn annog pobl i fod yn fwy annibynnol a rheoli eu hunain, ond bob amser mor sydyn ac i'r graddau sy'n briodol i'r unigolyn. Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd pobl yn cael eu cynorthwyo i ddechre i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Bydd dull holistaidd o ddarparu iechyd a llesiant yn mynd tu hwnt i ddarparu gwasanaethau cymorth yn y cartref neu mewn gofal preswyl. Er enghraifft, bydd gweithgareddau cymunedol a chysylltiad rheolaidd â ffrindiau a chymdogion yn helpu pobl i gadw'n brysur, lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd, a chynnal iechyd meddyliol a chorfforol. Ar gyfer nifer o bobl, bydd y cymorth angenrheidiol yn cael ei ddarparu gan wahanol bobl yn cydweithio'n agos â'i gilydd – gofalyr proffesiynol a di-dâl, teulu a ffrindiau, gwirfoddolwyr cymunedol, cymdeithasau tai a chymdogion, yn ogystal â'u hunain. Bydd trefn system gyfan yn galluogi'r holl bobl a thimau hyn i gydweithio, gan ddefnyddio'r holl asedau cymunedol, ar sail sylfaen gadarn o werthoedd cyffredin, rhannu gwybodaeth a pharch o'r ddwy ochr.

## **System deg sy'n sicrhau canlyniadau iechyd cyfartal i bawb**

---

**Mae'r dull holistaidd sydd ei angen arnom hefyd yn un sy'n darparu lefel gyfartal o driniaeth, gofal neu gymorth i bobl drwy gydol eu bywydau, boed yn fater iechyd corfforol neu feddyliol.**

---

Gall popeth, bron, ddylanwadu ar ein hiechyd a'n llesiant – er enghraifft ein teulu, ein ffrindiau a'n cymunedau, ansawdd a diogelwch ein tai, sicrhau hawliau a'n haeddiant, lefel ein haddysg a'n sgiliau, argaeledd gwaith da, arian ac adnoddau a'r amgylchedd o'n cwmpas. Rydym yn gwybod bod ffactorau o'n plentyndod, yn arbennig 'profiadau niweidiol yn ystod plentyndod', yn cael effaith sylweddol arnom wrth i ni dyfu. Mae llesiant meddyliol a chorfforol drwy gydol oes yn helpu unigolion i gyflawni eu potensial llawn – dygymod â'r heriau sy'n codi, gweithio'n gynhyrchiol a chyfrannu at eu bywydau teuluol a'u cymunedau.

Gall y dylanwadau hyn gyfuno i gael effaith fawr. Yng Nghymru ceir gwahaniaethau mawr mewn disgwyliaid oes, hyd yn oed i bobl sy'n byw mewn cymunedau o fewn rhai milltiroedd i'w gilydd. Bydd ein system gyfan yn cynnwys mynd i'r afael â'r dylanwadau ehangach hyn a'r 'graddiant cymdeithasol' fel bod gan bobl gyfleoedd bywyd ac iechyd gwell, mwy cyfartal, ble bynnag y maent yn byw. Dydy nifer o'r rhai allai elwa fwyaf o'r cymorth hwn ddim mewn cysylltiad rheolaidd â gwasanaethau iechyd a gofal. Dyna pam bydd yn rhaid i ni fynd y tu hwnt i'r hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd, gan ddefnyddio modelau newydd sy'n gweithio drwy bartneriaid a chymunedau i roi sylw i achosion cymdeithasol o iechyd a llesiant gwael, gan gynnwys

unigrwydd ac arwahanrwydd, sydd wedi'u profi eu bod yn cael effaith amlwg ar iechyd meddyliol a chorfforol. Mae'r dull holistaidd sydd ei angen arnom hefyd yn un sy'n darparu lefel gyfartal o driniaeth, gofal neu gymorth i bobl drwy gydol eu bywydau, boed yn fater iechyd corfforol neu feddyliol. Rhaid i wasanaethau helpu pobl i gael y dechrau gorau mewn bywyd a byw yn dda. Rhaid iddynt amddiffyn pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed, darparu triniaeth a gofal pan fo angen, a helpu pobl i heneiddio'n dda yn eu cartrefi eu hunain neu mor agos â phosibl at y cartref.

Golyga hyn sicrhau bod iechyd da ac ymddygiadau iach yn cael eu cefnogi yn ystod ychydig flynyddoedd cyntaf bywyd, gyda'r cyfnod cyn-geni a'r 1000 diwrnod cyntaf fel yr adeg bwysicaf i ddylanwadu ar ganlyniadau iach. Golyga y bydd pobl ifanc sy'n derbyn gofal neu ar ffiniau gofal yn cael cymorth a chefnogaeth i fwynhau'r un cyfleoedd bywyd â phlant eraill. Golyga y bydd gwasanaethau y mae pobl yn dibynnu arnynt ar adegau o bwys yn eu bywydau o'r un ansawdd uchel ble bynnag y maent. Golyga y bydd pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi i fyw'n annibynnol a'u trin ag urddas a pharch gyda Llywodraeth Cymru, partneriaid statudol a'r trydydd sector oll yn chwarae eu rhan i wireddu'r hawliau.

## **Gwasanaethau di-dor, wedi'u darparu mor agos â phosibl at y cartref**

**Dylai popeth gael ei gyflwyno fel pecyn unigol o gymorth, gofal neu driniaeth, wedi'i deilwra i anghenion a dewisiadau'r person hwnnw, hyd yn oed os yw'n cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan nifer o ddarparwyr gwahanol.**

Bydd modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol di-dor yn integreiddio gwasanaethau ar lefel leol

a rhanbarthol. Ein gweledigaeth at y dyfodol yw un drefn system gyfan lle caiff gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan wahanol ddarparwyr eu cydlynu'n ddi-dor ar gyfer ac o amgylch yr unigolyn. Dylai popeth gael ei gyflwyno fel pecyn unigol o gymorth, gofal neu driniaeth, wedi'i deilwra i anghenion a dewisiadau'r person hwnnw, hyd yn oed os yw'n cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan nifer o ddarparwyr gwahanol.

Bydd y GIG ac awdurdodau lleol yn chwarae rhan arweiniol, ond nid dyma'r unig ddarparwyr. Er enghraifft, bydd angen sector gofal cymdeithasol cynaliadwy, sy'n darparu cyfleoedd pwysig o ran cyflogaeth a gyrfaoedd fel rhan o'r 'economi sylfaenol' mewn nifer o gymunedau. Bydd gwasanaethau'n fwy cadarn os byddwn yn cefnogi darparwyr newydd a'r rhai sydd eisoes yn bodoli, annog arloesi, a hwylyso arallgyfeirio. Bydd hyn yn cryfhau ffyniant economïau lleol, a fydd yn cael effaith gadarnhaol hirdymor ar iechyd a llesiant.

Dros y degawd nesaf, byddwn yn gweld gwasanaethau yn symud o ysbytai cyffredinol mawr i ganolfannau rhanbarthol a lleol. Gellir darparu gwasanaethau diagnosteg cyffredin, gwasanaethau cleifion allanol, triniaethau dydd, a gwasanaethau mân lawdriniaethau neu anafiadau yn ddiogel ac o ansawdd uchel mewn canolfannau llai. Gellir rhannu arbenigedd clinigol drwy fodelau lle ceir prif ganolfan a lloerennau llai. Bydd y newidiadau hyn yn helpu i foderneiddio gwasanaethau, gan ganiatáu iddynt ddefnyddio technolegau newydd a rhannu arfer da yn genedlaethol, fel bod y gwasanaethau o ansawdd yr un mor dda ar draws Cymru gyfan.

Bydd gofal sylfaenol a chymunedol yn cynnig amrywiaeth ehangach o wasanaethau a chymorth dan arweiniad proffesiynol. O fewn ardal leol, bydd clystyrau o feddygon teulu, nyrsys a gweithwyr proffesiynol eraill yn y gymuned, fel deintyddion, fferyllwyr cymunedol ac optometryddion, yn gweithio'n agos gyda mwy o amrywiaeth o weithwyr proffesiynol,



gan gynnwys ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, parafeddygon, awdiolegwyr a gweithwyr cymdeithasol fel gwasanaeth iechyd a llesiant di-dor sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar. Bydd y gwasanaethau hyn yn helpu pobl i wneud penderfyniadau ynghylch gofalu am eu hunain ac aros yn annibynnol, fel bod modd iddynt gyrraedd at y gwasanaeth neu'r gweithiwr proffesiynol gorau i fodloni eu hanghenion penodol. Gall hyn gynnwys cymorth ar y we yn y cartref, sy'n datblygu'n gyflym, yn ogystal â chymorth wyneb yn wyneb. Bydd gwell ffyrdd o gyrraedd at wahanol ffynonellau o ofal a chymorth anfeddygol, fel sut i reoli dyledion, problemau tai neu wasanaethau a gweithgarwch cymunedol.

Bydd gwasanaethau di-dor yn helpu pobl cyn ac ar ôl eu hamser yn yr ysbyty. Bydd gwasanaethau yn y gymuned yn helpu pobl i baratoi ar gyfer triniaeth a gwella'n gyflym. Bydd partneriaethau newydd rhwng iechyd a thai yn datblygu atebion ar y cyd ac yn hwyluso gwelliannau mewn cymorth mwy dwys a llai dwys i bobl yn y gymuned. Bydd ysbytai yn datblygu

ffyrdd newydd o ragweld llif i mewn ac allan o ysbytai, fel bod modd cael adnoddau i gyfateb i'r anghenion, drwy gydol yr wythnos a thrwy gydol y flwyddyn. Mae gwasanaethau mewn ysbytai yn ddwys o ran adnoddau, ac fe fyddai'n well gan y rhan fwyaf o bobl fod yn agosach at y cartref. Bydd hyn yn caniatáu modelau partneriaeth newydd rhwng gwahanol ddarparwyr ac unigolion, gan alluogi pobl i aros yn yr ysbyty am gyfnod mor fyr â phosib. Bydd ysbytai hefyd yn anelu at sicrhau bod pobl fregus neu sydd ar ddiwedd eu bywydau yn cael eu gosod yn y lleoliad mwyaf priodol, a'u trin ag urddas.

Mae'r nod o ofal holistaidd sy'n cynnwys llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol, ynghyd â dewisiadau bywyd iach, hefyd yn gofyn am drawsnewid y ffordd y mae'r rhai sy'n darparu gofal yn ymwneud â'r cyhoedd. Mae pob cysylltiad yn gyfle i helpu rhywun i gynnal neu wella ei iechyd a llesiant, ac mae hynny yn aml yn golygu edrych y tu hwnt i'w symptomau neu anghenion uniongyrchol. Mae'n hathroniaeth Gofal Iechyd Darbodus eisoes yn ymrwymo i sicrhau bod penderfyniadau a dewisiadau

yn cael eu cymryd law yn llaw gyda'r rhai sy'n derbyn ein gwasanaethau, ac mae hyn yn ymestyn i'r ffordd mae'n system yn cefnogi dewisiadau llesiant a ffordd o fyw. Wrth i arfau newydd wella diagnosis a thriniaeth, a chaniatáu i bobl reoli eu gofal a'u triniaeth eu hunain, bydd mwy o gyfle i weithwyr proffesiynol arwain sgysiaid gyda phobl am 'beth sy'n bwysig' iddynt, a'r hyn y gellid ei wneud eu hunain i wella eu hiechyd a'u llesiant, neu osgoi salwch. Bydd hyn yn elfen gynyddol bwysig wrth osod y dinesydd wrth galon trefn system gyfan.

Bydd technolegau a systemau digidol newydd yn rhan bwysig o'n trefn system gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol, ond rhan yn unig. Ni fydd modd i rai pobl gyrraedd at wasanaethau digidol, a bydd eraill yn dewis peidio. Mae cysylltiad dynol wyneb yn wyneb yn hynod o werthfawr ac yn rhan gwbl hanfodol o ofal a thriniaeth. Mae nifer fawr o bethau na ellir eu darparu yn ddigidol na thrwy dechnoleg. Pobl fydd sylfaen gwasanaethau iechyd a gofal o ansawdd uchel o hyd.

## **Bydd pobl ond yn mynd i ysbyty cyffredinol pan fo hynny'n hanfodol**

---

**Bydd y mathau o wasanaethau sy'n cael eu darparu yn ein hysbytai mawr yn parhau i newid. Bydd pobl yn treulio llai o amser yn yr ysbyty, ac yn cael mwy o gefnogaeth i wella'n gyflym.**

---

Bydd gwasanaethau mewn ysbyty yn parhau i fod yn rhan hanfodol a gweledol o'n system iechyd a gofal yn y dyfodol. Yn gyffredinol bydd pobl yn cael cymorth amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau cymunedol, gan adeiladu ar ganolfannau cymunedol lleol ac ar gymorth meddygon teulu a gofal sylfaenol. Bydd ysbytai cyffredinol mwy yn darparu gwasanaeth damweiniau ac achosion brys 24/7 ynghyd ag amrywiol gyfleusterau ac arbenigeddau ategol.

Byddant yn cefnogi canolfannau mwy arbenigol drwy ganolbwyntio mwy ar rwydweithiau ar draws ysbytai a sefydliadau.

Bydd y mathau o wasanaethau sy'n cael eu darparu yn ein hysbytai mawr yn parhau i newid, wrth i rai gwasanaethau gael eu symud i ganolfannau cymunedol ac wrth i eraill ddod yn fwy arbenigol. Rhaid i ni arwain a chefnogi newidiadau sy'n arwain at wasanaethau mwy diogel a hyrwyddo gwell canlyniadau i'r rhai sy'n derbyn gofal, mewn lleoliadau gofal wedi'i gynllunio a gofal brys, gan gynnwys canoli gwasanaethau penodol ar sail tystiolaeth a chyngor clinigol lle bo angen. Bydd ysbytai eraill yn datblygu swyddogaeth glir ac amrywiol wasanaethau i gefnogi cymunedau, gan ddarparu lleoliadau ar gyfer cleifion allanol, gwasanaethau diagnosteg a thriniaeth ddydd, gan gynnwys y potensial ar gyfer canolfannau rhagoriaeth. Bydd ysbytai cymunedol a gwasanaethau y tu allan i oriau yn parhau i chwarae rhan gefnogol bwysig mewn lleoliadau lleol ar draws llwybr y cleifion.

Bydd pobl yn treulio llai o amser yn yr ysbyty, ac yn cael mwy o gefnogaeth i wella'n gyflym. Bydd gwasanaethau mewn ysbytai yn cael eu datblygu ar sail y canlyniadau i gleifion, yn unol â'n dull cenedlaethol o wella ansawdd a gofal gan sicrhau bod gweithlu medrus priodol yn ei le. Bydd pwyslais cadarn ar gyflymu diagnosis, cwtogi'r cyfnod o amser sydd angen i bobl ei dreulio yn yr ysbyty i gael triniaeth, helpu pobl i adfer eu hannibyniaeth ar ôl cael triniaeth, a sicrhau nad oes angen eu derbyn yn ôl eto i'r ysbyty. Pan fo angen defnyddio gwasanaethau arbenigol, bydd y system yn sicrhau bod y cleifion yn dychwelyd i'r lleoliad lleol mwyaf priodol i barhau â'u gofal, boed mewn lleoliad iechyd lleol, mewn cyfleuster llai dwys yn y gymuned neu yn y cartref.

Bydd triniaethau newydd yn bosibl, drwy ddatblygiadau mewn gwyddoniaeth a meddyginiaeth. Bydd esblygiad arferion yn newid y meysydd y mae meddygon a staff eraill yn gymwys i weithio ynddynt,

a'r hyn y gellir ei ddarparu'n ddiogel mewn ysbytai neu ganolfannau cymunedol. Yn y dyfodol, bydd rhai o driniaethau arbenigol heddiw yn gyffredin iawn, ond mae nifer o wasanaethau arbenigol ond yn trin a helpu nifer fach o gleifion, gan olygu bod angen poblogaethau mwy er mwyn i wasanaeth fod yn hyfyw yn glinigol, a chynnal sgiliau ar gyfer gofal diogel ac effeithiol. Bydd gan bawb yng Nghymru fynediad at y gwasanaethau arbenigol hyn, ble bynnag y mae'r canolfannau wedi'u lleoli, ond efallai na fydd rhai gwasanaethau cymhleth iawn yn cael eu darparu yng Nghymru, er enghraifft os ydynt ond yn trin nifer fach iawn o gleifion ar draws y DU. Mewn achosion eraill, gall fod canolfannau arbenigol yng Nghymru, sydd ond yn hyfyw am eu bod yn gwasanaethu poblogaeth ehangach y DU, neu hyd yn oed y boblogaeth ryngwladol.

### **Defnyddio technoleg i gefnogi gwasanaethau o ansawdd uchel a chynaliadwy**

---

**Wrth edrych 10 mlynedd i'r dyfodol, nid yw nifer o'r technolegau a'r arferion hyn yn gwbl hysbys eto ac maent yn dal i ddatblygu, felly bydd angen system sy'n medru ymateb ar frys ac yn hyblyg i'r cyfleoedd newydd hyn.**

---

Bydd technolegau newydd yn galluogi ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol i adnabod dirywiad cynnar a salwch yn gynt, gwneud diagnosis manylach, a gwneud gwell dewisiadau ynghylch pa driniaeth sydd orau i'r unigolyn. Bydd diagnosteg enetig newydd yn helpu i ganfod canser llawer cynharach, fwy na thebyg drwy brawf gwaed syml, ac adnabod mathau penodol o ganser a'r math o driniaeth sydd fwyaf tebygol o'i

wella. Bydd technolegau cymorth newydd yn y cartref yn helpu pobl i fod yn annibynnol am gyfnod hirach, drwy eu helpu'n gorfforol a'u cadw'n ddiogel drwy drefn monitro a rhybuddio deallus. Bydd systemau digidol newydd yn gwella ein gallu i adnabod dirywiad graddol mewn iechyd meddyliol a chorfforol, ac i weld arwyddion cynnar iawn o ddirywiad a salwch drwy ddata gwell, mwy cysylltiedig a dulliau newydd, gan gynnwys dysgu peiriannau a deallusrwydd artiffisial.

Drwy sicrhau bod yr wybodaeth berthnasol yn gywir, yn gyflawn, yn gyfoes ac yn cael ei rhannu rhwng pawb sy'n gyfrifol am ofal a thriniaeth unigolion, bydd gwasanaethau'n fwy diogel ac effeithiol. O ganlyniad bydd cleifion yn cael cymorth i gyrraedd at y gwasanaethau sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Bydd technolegau digidol yn helpu i sicrhau gwell penderfyniadau clinigol, drwy hidlo a dehongli gwybodaeth am yr unigolyn, a grwpiau o unigolion tebyg, a rhagweld canlyniadau ar gyfer gwahanol driniaethau. Bydd hyn yn helpu i flaenoriaethu a chyflymu triniaeth ac yn helpu'r unigolyn i gydweithio'n agosach gyda gweithwyr proffesiynol, fel bod eu gofal yn ateb eu gofynion a'u dewisiadau personol eu hunain, gyda chanlyniadau y gellir eu rhagweld.

Dyma gyfleoedd pwysig i symud ein system iechyd a gofal tuag at ganfod ac ymyrryd yn gynnar, gyda'r nod o atal salwch a chynyddu annibyniaeth. Bydd gan bobl fwy o rôl a rheolaeth dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, gan wneud penderfyniadau am driniaethau a rheoli cyflyrau hirdymor. Gall gwasanaethau digidol newydd gael eu llunio a'u darparu o amgylch unigolion a grwpiau, ar sail eu hanghenion yn hytrach na'r ardal lle maent yn byw. Yn hytrach nag aros i rywbeth 'fynd o'i le', bydd ein system yn defnyddio'r holl arfau sydd ar gael i sicrhau bod popeth yn aros yn iawn.





## Sut y byddwn yn sicrhau newid

Wrth osod y weledigaeth hon, rydym yn cydnabod maint y dasg sydd o'n blaen. Mae Adroddiad yr Adolygiad Seneddol yn nodi'r heriau clir sy'n wynebu iechyd a gofal cymdeithasol, o ganlyniad i dueddiadau demograffig a chymdeithasol, o fewn cyd-destun cyni parhaus ar draws y DU. Nid Cymru yn unig sy'n ceisio dygymod â'r heriau hyn.

Yn y Cynllun hwn rydym yn gosod yr hyn a welwn fel taith hirdymor tuag at gyflawni ein gweledigaeth. Mae'n hymrwymadau a'n gweithredoedd yn canolbwyntio ar y tymor byr, ac ar yr hyn y byddwn yn ei wneud dros y tair blynedd nesaf. Drwy weithredu argymhellion yr Adolygiad Seneddol gyda hyder ac ar fyrder, rydym yn ceisio dechrau newid o fewn y system. Drwy ein hymrwymiad i gadw mewn cysylltiad yn barhaus, gan gynnwys wrth ddatblygu'r Cynllun hwn, rydym am arwain ein partneriaid a'n rhanddeiliaid i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer y degawd nesaf.

Rhaid i "chwyldro o'r tu mewn" gael ei arwain gan syniad canolog cryf. Lluniwyd y cynllun hwn o amgylch y Nod Pedwarplyg, gan ei ddefnyddio i lywio'r newidiadau yr ydym am eu gweld, ac i sicrhau ein bod yn gweld cynnydd ar bob ochr tuag at gyflawni ein gweledigaeth am drefn system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

### Y Nod Pedwarplyg

Mae'r syniad o bedwar nod cysylltiedig – a ddisgrifir gyda'i gilydd fel Nod Pedwarplyg – yn ysgogi datblygiad nifer o systemau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n perfformio'n dda ar draws y byd. Yn unol ag argymhellion yr Adolygiad Seneddol, byddwn yn defnyddio'r Nod Pedwarplyg fel syniad canolog i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r ffordd rydym am weld ein system yn datblygu a sut y byddwn yn blaenoriaethu newid.

Bydd ein hathroniaeth Gofal Iechyd Darbodus yn parhau i fod yn nodwedd amlwg o'r system yng Nghymru, gan arwain at well ansawdd a gwerth drwy leihau amrywiad, gwastraff a niwed, a thrwy

ymyraethau clinigol llai dwys. Mae'n deddfwriaeth hefyd yn ymwreiddio ymrwymiad i atal ac ymyrryd yn gynnar, ac i gydgyhyrchu a rhannu llais a rheolaeth, er enghraifft drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Gan ddefnyddio'r Nod Pedwarplyg byddwn yn gweld sut mae ein system iechyd a gofal cymdeithasol yn cyfrannu at gyflawni'r nodau sy'n cael eu diffinio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae proffil rhyngwladol y Nod Pedwarplyg yn golygu y bydd ei ddefnyddio yn ein system yn ein helpu i ddysgu a rhannu gwybodaeth gyda systemau iechyd a gofal cymdeithasol eraill, er mwyn i ni rannu profiadau a dysgu'n gynt. Mae iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy yn her fyd-eang. Rydym yn benderfynol o drafod yn agored gyda gwledydd eraill, a sectorau eraill. Pedair thema'r Nod Pedwarplyg, wedi'u dehongli ar gyfer ein cyd-destun yng Nghymru yw:

- Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth;
- Gwella ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol;
- Cynyddu'r gwerth a gyflawnir gan iechyd a gofal cymdeithasol;
- Gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol brwd a chynaliadwy.

Byddwn hefyd yn defnyddio'r Nod Pedwarplyg i adrodd ar ein cynnydd tuag at gyflawni'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol.

### Egwyddorion Cynllunio

Rhaid i syniadau gael eu gwireddu, felly byddwn yn defnyddio 'egwyddorion cynllunio' i helpu'r cyhoedd a staff i ddeall yn ymarferol sut y gall y Nod Pedwarplyg a'n hathroniaeth ehangach o Ofal Iechyd Darbodus gael eu defnyddio i ysgogi newid. Bydd yr egwyddorion cynllunio hyn yn helpu i gysoni'r nifer o brosiectau a rhaglenni newid sydd angen eu gweld, ar draws ein holl system, er mwyn iddynt fedru cyfuno i gyflawni 'chwyldro o'r tu mewn' yn ein system iechyd a gofal cymdeithasol.

## Nodau Allanol

Uniongyrchol berthnasol i'r boblogaeth ac i unigolion, gyda chefnogaeth cyfathrebu, cysylltu a chydgynhyrchu, amcanion hirdymor cymharol sefydlog,

**“Ein gweledigaeth ar gyfer system iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol”**

### Iechyd a Llesiant y Boblogaeth

Gwell mesurau atal a hunan reolaeth

### Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Gwell ansawdd a phrofiad, wedi'i hwyluso gan dechnoleg ddigidol, gyda chymorth cysylltiad cyson

## Rhaglen Drawsnewid Genedlaethol

Gweithredu egwyddorion cynllunio  
Datblygu ac ehangu modelau newydd  
Atebolrwydd a chyflymdra

### Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Gwella llesiant, gallu, cysylltiad, arweiniad

### Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gwerth Uwch

Gwella ac arloesi yn gyflym, wedi'i hwyluso gan ddata, canolbwyntio ar ganlyniadau

## Nodau Mewnol

Datblygu gallu a chapasiti i newid, mabwysiadu arfau newydd a dealltwriaeth yn gyflym, amcanion cymharol fyrdymor

**“Gwneud ein system iechyd a gofal yn addas ar gyfer y dyfodol”**

Bydd yr egwyddorion cynllunio yn helpu pobl i gadarnhau a ydynt yn mynd i'r cyfeiriad cywir, ar y cyflymdra cywir. Efallai na fydd prosiectau unigol yn bodloni pob un o'r egwyddorion cynllunio. Gallant ganolbwyntio ar un rhan o'r system gyfan, ar un gwasanaeth, neu ar un ffordd newydd o weithio. Byddai ceisio gwneud popeth yr un pryd, neu ofyn i'r prosiectau lleiaf hyd yn oed fodloni pob blaenoriaeth genedlaethol, yn rhwystro'r cylch cyflym o ddatblygu, profi, mireinio a datblygu sydd ei angen arnom.

Fel yr amlygodd y Panel Adolygu, rhaid i ni gydbwysu fframwaith a set o ddisgwyliadau cenedlaethol cyson gyda darpariaeth leol a chyfleoedd i arloesi. Drwy ddod o hyd i ffyrdd o gefnogi newid sy'n caniatáu i bobl ar bob lefel gyfrannu at wella gwasanaethau, gan dynnu ar eu profiadau a'u gwybodaeth arbenigol ar y cyd, byddwn yn hyrwyddo safonau cenedlaethol a diwallu gofynion lleol gyda'n gilydd. Bydd trefn gyffredin ar

draws Cymru yn helpu i rannu dysg – nid oes synnwyr i bob ardal lunio model gofal newydd o'r dechrau'n deg, os oes arfer da eisoes yn cael ei gydnabod rhywle arall yng Nghymru neu yn rhyngwladol.

Bydd yr egwyddorion cynllunio yn helpu i arwain yr arloesi a'r awydd am newid sydd gennym eisoes ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, er mwyn iddo adeiladu'n gynt ac yn bwrpasol i fodelau di-dor o iechyd a gofal cymdeithasol y gellir eu datblygu'n rhanbarthol ac yn genedlaethol, yn unol â'n gweledigaeth o drefn system gyfan yn y dyfodol. Maent yn egwyddorion i bawb, nid darparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn unig. Rydym am weithio gydag asedau'r gymuned ehangach mewn ardal i adeiladu cadernid, er enghraifft grwpiau cefnogi a chynlluniau gwirfoddol, ac rydym am weithio gyda phartneriaid allanol, gan gynnwys y diwydiant a darparwyr masnachol.

## Dyma'r deg egwyddor cynllunio cenedlaethol ac enghreifftiau o'r ffyrdd o'u defnyddio:

**Atal ac ymyrryd yn fuan** – gweithredu i alluogi ac annog iechyd a llesiant da gydol oes; disgwyl a rhagweld iechyd a llesiant gwael.

**Diogelu** – nid yn unig gofal iechyd nad yw'n gwneud unrhyw niwed, ond galluogi pobl i fyw'n ddiogel o fewn teuluoedd a chymunedau, diogelu pobl rhag perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu niwed o fath arall.

**Annibyniaeth** – helpu pobl i reoli eu hiechyd a'u llesiant, bod yn gadarn ac yn annibynnol am gyfnod hwy, yn eu cartrefi a'u hardaloedd eu hunain, gan gynnwys cyflymu adferiad ar ôl triniaeth a gofal, a helpu i reoli cyflyrau hirdymor eu hunain.

**Llais** – grymuso pobl â'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen i ddeall a rheoli eu hiechyd a'u llesiant, i wneud penderfyniadau am ofal a thriniaeth ar sail 'beth sy'n bwysig' iddyn nhw, a chyfrannu at wella ein trefn system gyfan o iechyd a gofal; cyfathrebu clir, syml ac amserol a chysylltu mewn ffordd briodol yn ôl oedran a lefel dealltwriaeth.

**Personol** – gwasanaethau iechyd a gofal sydd wedi'u teilwra i anghenion a dewisiadau'r unigolyn, gan gynnwys yn yr iaith a ffefrir; meddygaeth fanwl; cynnwys pobl mewn penderfyniadau am eu gofal a thriniaeth; helpu pobl i reoli eu gofal a'u canlyniadau eu hunain.

**Di-dor** – gwasanaethau a gwybodaeth llai cymhleth ac wedi'u cydlynu'n well i'r unigolyn; integreiddio proffesiynol, cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau a darparwyr i osgoi trosglwyddiadau rhwng gwasanaethau sy'n creu ansicrwydd i'r unigolyn.

**Gwerth uwch** – sicrhau gwell canlyniadau a gwell profiad i bobl am gost is; gofal a thriniaeth sydd wedi'u llunio i gyflawni 'beth sy'n bwysig' ac sy'n cael eu darparu gan y person cywir ar yr adeg gywir; llai o amrywiad a dim niwed.

**Seiliedig ar dystiolaeth** – defnyddio ymchwil, dysg a gwybodaeth i ddeall beth sy'n gweithio; dysgu drwy weithio gydag eraill; defnyddio arloesi a gwelliannau i ddatblygu a gwerthuso gwell arfau a ffyrdd o weithio.

**Datblygu** – sicrhau bod modd datblygu arfer da o lefel leol i lefel ranbarthol a chenedlaethol, ac allan i dimau a sefydliadau eraill.

**Trawsnewid** – sicrhau bod ffyrdd newydd o weithio yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy, eu bod yn newid a disodli dulliau presennol, yn hytrach nag ychwanegu haen ychwanegol yn barhaol i'r hyn a wnawn nawr.

Byddwn yn trafod yr egwyddorion cynllunio gyda'r gweithlu iechyd, gofal cymdeithasol a thrydydd sector er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu deall a'u cefnogi yn eang. Fel system sy'n dysgu, byddwn yn eu hadolygu

mewn tair blynedd ac yn eu mireinio yn ôl yr angen, ar sail yr hyn a gyflawnwyd ac yn ôl adborth y bobl sydd wedi eu defnyddio.

Cam gweithredu	Dyddiad
Hyrwyddo dealltwriaeth o'n hathroniaeth Gofal Iechyd Darbodus, ein Nod Pedwarplyg, a'r Egwyddorion Cynllunio drwy raglen i drafod gyda'r cyhoedd a'r gweithlu.	<b>O 2018 ymlaen</b>
Gwerthuso effaith yr Egwyddorion Cynllunio a'u mireinio os oes angen.	<b>Erbyn 2021</b>
Cyhoeddi trosolwg cenedlaethol o berfformiad cyffredinol y system iechyd a gofal cymdeithasol yn erbyn y Nod Pedwarplyg a'i gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.	<b>Erbyn 2021</b>

### Modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol di-dor

Argymhellodd yr Adolygiad Seneddol mai'r prif beth a ddylai fod dan sylw wrth drawsnewid y system yw modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol di-dor. Ar draws Cymru, rydym wedi gweld nifer o fodelau a dulliau gweithredu newydd yn dod i'r amlwg yn ddiweddar, gyda chefnogaeth y Gronfa Gofal Sylfaenol a'r Gronfa Gofal Integredig er enghraifft. Mae'n galonogol gweld bod rhai o'r modelau hyn wedi dechrau'n lleol, gan gynnwys drwy'r clystyrau gofal sylfaenol, a bod nifer wedi dangos cydweithio effeithiol rhwng darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Mewn rhai clystyrau, gwelwyd cydweithio arloesol gyda'r trydydd sector, wrth iddynt weithredu ffyrdd o ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol gyda chanlyniadau da a gwerth amlwg am arian.

Er enghraifft, mae gwaith arloesol gan y clystyrau<sup>1</sup>, drwy'r rhaglen genedlaethol pennu cyfeiriad gofal sylfaenol, wedi bod yn sail i lawer o arfer da. Cafodd y rhain eu huno fel model cenedlaethol ar gyfer trawsnewid cynaliadwyedd a mynediad at iechyd a gofal yn lleol. Mae'r model, sy'n cael ei ddefnyddio i wella gofal lleol, cymunedol ac yn y cartref, yn system gyfan sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, ac wedi'i lunio i gefnogi iechyd a llesiant pobl mewn ffyrdd sy'n rhoi pwyslais ar atal.

Drwy'r cynllun hwn rydym am weld mwy o'r modelau newydd hyn yn codi, gyda chysylltiad agos gyda'r Nod Pedwarplyg a'r Egwyddorion Cynllunio, gan ddarparu gwell canlyniadau sy'n bwysig i bobl, a medru datblygu'n gyflym i lefel rhanbarthol a chenedlaethol. Disgwyliwn weld amrywiol fodelau newydd yn rhoi sylw i anghenion gwahanol grwpiau ac yn ymateb i ddewisiadau a chyfleoedd lleol. Nododd yr Adolygiad Seneddol rai meysydd blaenoriaeth – plant a phobl ifanc, ardaloedd gwledig, a phobl sy'n dibynnu ar ofalwyr – gan ddisgrifio sut y dylid llunio gwasanaethau i bobl hyn ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys sut y dylent gael eu profi gan bobl hyn. Roedd yr Adolygiad hefyd yn disgrifio sut y dylai clystyrau gofal sylfaenol, dinasyddion lleol ac eraill gael rhan hanfodol yn llunio a datblygu modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol di-dor.

Gwelir swyddogaeth bwysig i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol<sup>2</sup> wrth ysgogi datblygiad modelau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofal sylfaenol ac eilaidd, ar lefel leol. Dylai asesiadau o anghenion a chynlluniau gwasanaethau clystyrau lleol gyfrannu at asesiadau rhanbarthol a chynlluniau ardal sy'n cael eu datblygu gan y Byrddau hynny. Efallai y bydd modelau gofal cynnar yn canolbwyntio ar y grwpiau â blaenoriaeth a nodwyd yn yr Adolygiad (hynny yw y Gymraeg, pobl hyn, plant, pobl ag afiechyd meddwl

<sup>1</sup> Clystyrau yw'r chwe deg pedwar grŵp o bractisau meddyg teulu a sefydliadau partner cyfagos ar draws Cymru sy'n darparu gwasanaethau i'w poblogaethau lleol rhwng 30,000 a 50,000 o bobl.

<sup>2</sup> Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw'r saith partneriaeth statudol rhwng llywodraeth leol, y trydydd sector a'r GIG. Eu diben yw annog y gwaith o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol rhanbarthol mewn ffordd strategol mewn cydweithrediad agos â'r sector iechyd.

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg


- 1 Afan
- 2 Iechyd y Bae
- 3 Rhwydwaith Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr
- 4 Rhwydwaith Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr
- 5 Rhwydwaith Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr
- 6 Iechyd y Ddinas
- 7 Cwm Tawe
- 8 Llŵchwr
- 9 Castell Nedd
- 10 Penderi
- 11 Cymoedd Uchaf

## Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan

- 12 Dwyrain Blaenau Gwent
- 13 Gorllewin Blaenau Gwent
- 14 Dwyrain Caerffili
- 15 Gogledd Caerffili
- 16 De Caerffili
- 17 Gogledd Sir Fynwy
- 18 De Sir Fynwy
- 19 Canol Casnewydd
- 20 Dwyrain Casnewydd
- 21 Gorllewin Casnewydd
- 22 Gogledd Torfaen
- 23 De Torfaen

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

- 24 Ynys Môn
- 25 Arfon
- 26 Canol a De Sir Ddinbych
- 27 Dwyrain Conwy
- 28 Gorllewin Conwy
- 29 Glannau Dyfrdwy, Penarlâg a Saltney
- 30 Dwyfor
- 31 Treffynnon a'r Fflint
- 32 Meirionnydd
- 33 Yr Wyddgrug, Bwcle a Chaergwrle
- 34 Gogledd Sir Ddinbych
- 35 De Wrecsam
- 36 Gogledd a Gorllewin Wrecsam
- 37 Tref Wrecsam



## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

- 38 Dwyrain Caerdydd
- 39 De-ddwyrain Caerdydd
- 40 Dinas a De Caerdydd
- 41 Gogledd Caerdydd
- 42 De-orllewin Caerdydd
- 43 Gorllewin Caerdydd
- 44 Canol y Fro
- 45 Dwyrain y Fro
- 46 Gorllewin y Fro

## Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf

- 47 Gogledd Cwm Cynon
- 48 Gogledd Merthyr Tudful
- 49 Gogledd Rhondda
- 50 Gogledd Taf Elái
- 51 De Cwm Cynon
- 52 De Merthyr Tudful
- 53 De Rhondda
- 54 De Taf Elái

## Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda

- 55 Aman Gwendraeth
- 56 Llanelli
- 57 Gogledd Ceredigion
- 58 Gogledd Sir Benfro
- 59 De Ceredigion
- 60 De Sir Benfro
- 61 Taf / Teifi / Tywi

## Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

- 62 Canolbarth Powys
- 63 Gogledd Powys
- 64 De Powys

a phobl anabl), ond disgwylwn weld clystyrau a'r Byrddau yn cydweithio i ddehongli'r Egwyddorion Cynllunio cenedlaethol eu hunain a'u cysoni yn ôl eu blaenoriaethau eu hunain. Bydd angen i ni weld modelau yn ymddangos sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan adeiladu ar safonau Mwy na Geiriau fel bod modd i bobl gyfathrebu yn eu dewis iaith. Dylai clystyrau a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol feithrin gwaith agos ar y cyd i hwyluso hyn.

Hoffem annog pob ardal i feddwl yn ofalus am eu trefniadau presennol, a chydweithio ar draws ffiniau i lunio a darparu gofal di-dor ar lefel gymunedol. Rhaid i'r sgysiau hyn gynnwys y rhai sy'n rhan o'r gwaith o ddarparu gofal mewn ysbytai fel bod modd ystyried llwybrau'r cleifion yn llawn o'r cychwyn cyntaf, lle bynnag mae'r gwasanaethau'n cael eu darparu. Bydd cyfle i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol hyrwyddo modelau cyflawni amgen a sefydliadau gwerth cymdeithasol, yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Gallai hyn ganiatáu sector gofal cymdeithasol mwy amrywiol a democrataidd, gan gynnwys gwasanaethau a gynhyrchir ar y cyd. Neu gallai

gyflawni cynaliadwyedd tymor hir drwy wasanaethau ataliol sy'n gwella canlyniadau iechyd a llesiant, gan gefnogi gwasanaethau statudol.

Rydym yn dweud yn glir nad oes unrhyw ran o Gymru lle na ellir gwneud cynnydd pellach. Bydd hyn yn golygu gweld partneriaid yn herio'i gilydd er mwyn sicrhau bod newidiadau mewn gwasanaeth neu broffesiwn unigol yn cael eu cyflwyno fel rhan o agenda gyffredin wedi'i llunio i greu'r system iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant orau i gyd.

Drwy fod yn gyson â'r Egwyddorion Cynllunio a'u haddasu at wahanol grwpiau poblogaeth os oes angen, dylai modelau sy'n cael eu hyrwyddo gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fod â'r capasiti i ddatblygu o lefel leol i lefel rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r modelau newydd hyn yn ffordd bwysig o sicrhau'r trawsnewid sydd angen ei weld dros y degawd nesaf, gan weithredu fel system i ddatblygu modelau newydd, arloesol o iechyd a gofal cymdeithasol di-dor. Drwy Raglen Drawsnewid genedlaethol, bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a modelau newydd yn cael cefnogaeth drwy ddysgu parhaus, gwerthuso a rhannu arfer da.

## Cam gweithredu

Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fydd prif ysgogwr newid mewn iechyd a gofal cymdeithasol ar lefel ranbarthol.

Bydd clystyrau yn parhau i ddatblygu modelau o waith partneriaeth lleol di-dor, gan weithio'n agos gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i hyrwyddo ffyrdd trawsnewidiol o weithio, fel eu bod yn cael eu mabwysiadu ar draws Cymru.

Bydd pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn nodi a hyrwyddo o leiaf dau fodel o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol di-dor, yn unol â'r Nod Pedwarplyg a'r Egwyddorion Cynllunio.

Comisiynu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru i gydweithio i edrych ar gynnydd modelau lleol newydd o iechyd a gofal cymdeithasol, ac effeithiolrwydd gwaith y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar y cyd.

Bydd y contract gofal sylfaenol cenedlaethol yn cael ei ailffurfio i alluogi darparu gofal a chymorth lleol yn ddi-dor.

## Dyddiad

**O 2018 ymlaen**

**O 2018 ymlaen**

**Erbyn diwedd 2018**

**Erbyn diwedd 2018**

**Erbyn 2020**


## Rhaglen Drawsnewid

I gyflawni'r cynllun hwn, byddwn yn sefydlu Rhaglen Drawsnewid, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda rheolaeth leol drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gyda chefnogaeth Bwrdd Trawsnewid Cenedlaethol o gynrychiolwyr uwch arweinwyr iechyd a gofal cymdeithasol a phartneriaid a rhanddeiliaid pwysig eraill. Bydd y Rhaglen Drawsnewid yn goruchwyllo'r ymrwymadau yn y cynllun hwn ac yn atebol yn genedlaethol amdanynt. Bydd yn cynghori ac yn ymrwmo cyllid penodol i ddarparu'r iechyd a gofal cymdeithasol, gan ganolbwyntio'n arbennig ar fodelau newydd penodol o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol di-dor sydd wedi'u nodi fel rhai sy'n cynnig gwerth ehangach sylweddol, ac sy'n gyson â blaenoriaethau cenedlaethol.

Roedd methodoleg a Rhaglen Drawsnewid genedlaethol yn argymhelliad amlwg yn yr Adolygiad Seneddol, a nododd hefyd bod nifer o fyrddau rhaglenni, rhwydweithiau, systemau cyflawni, cronfeydd a mentrau eraill eisoes yn bodoli i gefnogi newid strategol. Fel rhan o'n hymgais i sicrhau

ffordd fwy clir a chyson o drawsnewid, byddwn yn adolygu pob un o'r rhain ac yn ystyried cyfleoedd i'w cysoni a'u huno i'r Rhaglen Drawsnewid a'n dull cenedlaethol o drawsnewid. Byddwn yn gosod disgwyliadau ar gyfer cyflawni lleol drwy'r sefydliadau sy'n darparu iechyd a gofal cymdeithasol yn lleol, drwy fodelau llywodraethu a strwythurau'r GIG.

Bydd ein gweledigaeth o gael trefn system gyfan o iechyd a gofal cymdeithasol yn gofyn am ymdrech ar draws y system gyfan. Dim ond un elfen yw'r Rhaglen Drawsnewid o'r ymrwymiad a'r arweinyddiaeth llawer ehangach sy'n ofynnol ar gyfer y cynllun hwn, ac mae'r Gronfa Drawsnewid ond yn un elfen o'r Rhaglen Drawsnewid. Mae'r Gronfa'n fuddsoddiad sylweddol, ond mae'n fach yng nghyd-destun cyllid iechyd a gofal cymdeithasol yn gyffredinol. O ganlyniad rhaid ei dargedu i brosiectau sy'n cael blaenoriaeth a modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol, gyda'r nod o gyflymu'r gwaith o'u datblygu ac arddangos eu gwerth. Bydd y Gronfa Drawsnewid yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar fodelau sy'n gwneud cynnydd cynnar ar y canlynol: cysoni gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol



yn ddi-dor; darparu iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol a sylfaenol yn lleol; a gwasanaethau a gweithgareddau atal integredig newydd. Yn y tymor hir, rhaid i rhain a'r modelau newydd eraill gael eu

cymryd gan ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, wedi'u hariannu o'u hadnoddau eu hunain.

## Cam gweithredu

Sefydlu Rhaglen Drawsnewid genedlaethol i annog gweithredu'r Cynllun hwn, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyda chefnogaeth Bwrdd Trawsnewid o gynrychiolwyr traws-sector.

Sefydlu Cronfa Drawsnewid benodol i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Cynllun hwn, yn arbennig modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol a hyrwyddwyd gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Adolygu byrddau rhaglenni, rhwydweithiau, systemau cyflawni a mentrau presennol sy'n cefnogi newid strategol, er mwyn eu cysoni a'u huno i'r Rhaglen a'r Gronfa Drawsnewid.

## Dyddiad

**Mehefin 2018**

**Mehefin 2018**

**Erbyn  
mis Mawrth 2019**

## Sicrhau bod ein system yn barod at y dyfodol

### Gwella Ansawdd a Gwerth

**“At its core is maximizing value for patients: that is, achieving the best outcomes at the lowest cost.”**

Michael Porter a Thomas Lee, Harvard Business Review, Hydref 2013

Ystyr ansawdd yw sicrhau bod iechyd a gofal cymdeithasol yn ddiogel, yn effeithiol, yn canolbwyntio ar y claf, yn amserol, yn effeithlon ac yn deg. Ers sawl blwyddyn mae Cymru wedi hyrwyddo ansawdd fel prif egwyddor a chanolbwynt ar gyfer gwella gwasanaethau iechyd. Mae gennym ddull gweithredu cadarn ac uchel ei barch ar gyfer rheoli ansawdd. Gellir ei ystyried fel cylch sy'n cynnwys tair elfen graidd – cynllunio, gwella a rheoli ansawdd. Mae'r Rhaglen Gwella

1000 o Fywydau genedlaethol wedi arfogi miloedd o bobl sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i wella, fel unigolion ac mewn timau rheng flaen. Bydd ansawdd yn rhan annatod o'n Rhaglen Drawsnewid a'r modelau gofal newydd. Dylem ddod o hyd i ffyrdd i'r cyhoedd gyfrannu'n uniongyrchol at y cylch hwn o welliannau yn y dyfodol.

Mae sicrhau gwerth mewn iechyd a gofal cymdeithasol hefyd yn ffordd o ganolbwyntio mwy ar y canlyniadau sydd o bwys i unigolion, ac ystyried eu perthynas â'r gost o gyflawni'r canlyniadau hynny. O ganlyniad mae'r dull hwn yn dehongli effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd drwy edrych tu hwnt i arbedion ariannol, diogelwch ac ansawdd clinigol. Yn y ffordd y mae'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac yn ystyried gwerth cymharol gwahanol opsiynau gofal a thriniaeth, mae'n gwbl gyson ag athroniaeth Gofal Iechyd Darbodus.



Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein dull o wella ansawdd, gan gynnwys cryfhau ein talent a'n harweinyddiaeth, a chynllunio ar sail genedlaethol i sicrhau bod arfer da yn cael ei rhannu'n eang. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwybodaeth glinigol o ansawdd uchel, a datblygu mesurau gan ddefnyddio adborth gan bobl, cleifion a staff, er mwyn ymwreiddio gofal iechyd seiliedig ar werth fel ffordd o fesur yr hyn sy'n bwysig i bobl, gan sicrhau bod gweithgarwch gwella yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Yn y lle cyntaf bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar y cylch ansawdd sy'n effeithio ar y llwybr system gyfan ar draws chwe maes clinigol gwahanol: rheoli meddyginiaeth yn fwy diogel; llwybrau llawdriniaeth; gofal henoed bregus; rheoli salwch aciwt; gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol teg; a gofal diwedd oes.

Fel y Nod Pedwarplyg, mae ansawdd a gwerth yn gysyniadau sydd wedi'u cydnabod yn rhyngwladol, yn cael cefnogaeth gadarn gan gymunedau dysgu byd-eang a gan arfau a dulliau sydd wedi'u profi'n helaeth. Drwy ein Gwasanaeth Gwella 1000 o Fywydau a gweithgareddau eraill, rydym eisoes yn cymryd rhan mewn nifer o rwydweithiau rhyngwladol. Bydd hyn yn ein galluogi i ddefnyddio astudiaethau achos o arfer da mewn gwledydd eraill, gan eu hystyried a'u cyflwyno mewn iaith a therminoleg gyfarwydd, a defnyddio cymariaethau a meincnodi rhyngwladol i werthuso ein llwyddiannau a'n cynnydd – er enghraifft defnyddio “setiau safonol” a ddatblygwyd gan y Consortiwm Rhyngwladol dros Fesur Canlyniadau Iechyd. Drwy'r rhwydweithiau a'r digwyddiadau niferus sy'n canolbwyntio ar ansawdd a gwerth byddwn yn rhannu ein dysg ein hunain, i hyrwyddo proffil ac enw da Cymru a'i system iechyd a gofal.

Wrth ochr gwelliannau seiliedig ar ansawdd a gwerth, mae newid hefyd yn cael ei ysgogi gan weithgarwch ymchwil ac arloesi ar draws ein system iechyd a gofal cymdeithasol, a gan gysylltiad gyda'n partneriaid a'n chyflenwyr allanol. Mae gan bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru drefniadau partneriaeth

gyda Phrifysgolion, fel Byrddau Iechyd Prifysgol neu Fwrdd Iechyd Addysgu. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae GIG Cymru wedi gweithio'n fwy hyderus gyda'r diwydiant, gyda chefnogaeth polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru fel yr Hwb Gwyddorau Bywyd. Mewn gofal cymdeithasol, mae awdurdodau lleol yn brofiadol yn gweithio gyda darparwyr a chyflenwyr masnachol, a mentrau cymdeithasol a'r trydydd sector.

Ein nod nawr yw dod â phob un o'r elfennau hyn sy'n ysgogi newid ynghyd, ac edrych y tu hwnt i'r GIG fel ein bod yn cynnwys ein system a'n gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn uniongyrchol. Dylai pawb sy'n gweithio yn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gael cyfle i ddefnyddio eu gwybodaeth a'u profiadau i sicrhau gwell ffyrdd o weithio, gan gynnwys cyfleoedd i staff gyfuno ymchwil â swyddogaethau clinigol. Rhaid gweld arloesi o bob ffynhonnell i gyflawni ein gweledigaeth o drefn system gyfan, sy'n canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i'r unigolyn a'r hyn sy'n darparu'r gwerth mwyaf.

Mae arloesi lleol yn hanfodol, ond nid yw'n ddigon wrth ei hun. Rhaid medru datblygu arfer da i lefelau rhanbarthol a chenedlaethol, mewn ffordd systematig ac ar fyrder. Rhaid herio a chefnogi ein gilydd, fel cymuned sy'n dysgu, i ysgogi gwell ansawdd a gwerth mor gyflym ac effeithiol â phosib. Drwy gydlyn y gwaith ymchwil, arloesi a gwella, i sicrhau gwell ansawdd a gwerth, byddwn yn darparu llif o gyfleoedd lleol y gellir eu datblygu ymhellach yn fodelau o ofal di-dor, drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Rhaid i berthynas â phartneriaid pwysig, gan gynnwys prifysgolion a diwydiant er enghraifft, gael eu datblygu a'u rheoli mewn ffordd dryloyw, gyda hyder a sicrwydd. Mae hefyd yn bwysig cyfuno dulliau lleol a rhanbarthol gydag arweinyddiaeth a blaenoriaethau cenedlaethol – mae rhai cyfleoedd yn gofyn am raddfa genedlaethol. Yn y rhan fwyaf o achosion, y ffordd orau o ymwneud â rhwydweithiau rhyngwladol yw ar lefel Cymru gyfan.

Byddwn yn uno pob gweithgaredd ymchwil, arloesi a gwella o fewn ardal ddaearyddol pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan ganolbwyntio ar gefnogi arloesi a phartneriaethau lleol sy'n arwain at fodolau gofal newydd. Wrth wneud hyn, ni fyddwn yn colli cryfder y Swyddfeydd Ymchwil sefydledig, Canolfannau Gwella Ansawdd a phartneriaethau gyda Phrifysgolion, neu gysylltiad gyda diwydiant neu bartneriaid allanol eraill. Mae'r GIG a gofal cymdeithasol yn rhan hanfodol o'n dull gweithredu trawsbynciol wrth gefnogi gwyddoniaeth, ymchwil ac arloesi, fel y gwelir yn ein Cynllun Gweithredu

Economaidd a dogfennau strategaeth genedlaethol eraill, gan gynnwys argymhellion diweddar Adolygiad Reid o ymchwil ac arloesi wedi'i ariannu gan lywodraeth. Mae'r newidiadau yn ymwneud ag alinio a chydlynu'r hyn sy'n digwydd o fewn y system iechyd a gofal cymdeithasol gyda'r economi ehangach a chymunedau, er mwyn iddo gyfrannu'n fwy clir ac uniongyrchol i gyflawni pob un o'n blaenoriaethau cenedlaethol.

<b>Cam gweithredu</b>	<b>Dyddiad</b>
Sefydlu rhwydwaith cenedlaethol cyson o ganolfannau sy'n uno gweithgarwch ymchwil, arloesi a gwella o fewn ardal pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.	<b>Erbyn mis Mawrth 2019</b>
Mabwysiadu safonau cenedlaethol ar gyfer gwerthusiad cyflym o bob gweithgarwch arloesi a gwella, gan ddefnyddio dull seiliedig ar werth i fesur ansawdd a chanlyniadau.	<b>0 2019 ymlaen</b>
Buddsoddi mewn nifer fach o flaenoriaethau sy'n cynnig cyfleoedd i ysgogi iechyd a gofal cymdeithasol gwerth uwch, drwy ddulliau gweithredu newydd, technolegau newydd a chyfleoedd partneriaeth strategol.	<b>0 2019 ymlaen</b>

### **Digidol a data**

Mae technoleg ddigidol yn ffordd bwysig o sicrhau trawsnewid, ac roedd yr Adolygiad Seneddol yn cydnabod bod hyn yn flaenoriaeth bwysig. Mae'n darparu llwyfan cyffredin i wahanol sefydliadau gydweithio mewn ffordd effeithiol a diogel, ac i weithio'n uniongyrchol gyda'r dinasyddion. Drwy wneud gwell defnydd o dechnoleg ddigidol, data a chyfathrebu, bydd modd i ni wella ansawdd a gwerth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, er mwyn iddynt fod yn gost-effeithiol ac yn gynaliadwy. Bydd hefyd yn golygu bod ein cynnig yn cyfateb i ddisgwyliadau pobl o dechnoleg yn eu bywydau bob dydd.

Gall technolegau digidol ddod â gwybodaeth gan wahanol ddarparwyr ynghyd, fel bod modd modelu a rhagweld y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gwella'n dealltwriaeth a'n rheolaeth dros y ffordd y mae gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd. Bydd llwyfan integredig hefyd yn dal mwy o wybodaeth am y canlyniadau iechyd a llesiant sy'n bwysig i bobl, fel bod modd defnyddio'r wybodaeth i flaenoriaethu gwasanaethau ar sail darlun llawn o'u hansawdd a'u gwerth, nid cost a swm yn unig. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gofal clinigol yn cael ei ddarparu'n ddarbodus, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n gweithio ac osgoi'r hyn nad yw'n gweithio, ar sail gwybodaeth gyfoes a chadarn y gellir ei rhannu ar draws y system.



Ceir enghreifftiau ardderchog eisoes o systemau digidol yn rhannu gwybodaeth ar draws a rhwng gofal sylfaenol, gofal eilaidd a gofal cymdeithasol. Mae System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn rhaglen genedlaethol sy'n caniatáu i wybodaeth gael ei rhannu'n ddiogel rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Drwy ddarparu un cofnod electronig am gleifion, bydd modd i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wneud penderfyniadau ar y cyd a darparu gofal cyson, er lles pawb sy'n derbyn gwasanaethau iechyd, gofal a chymorth. Ar yr un pryd, byddwn hefyd yn cyflawni ar fyrder yn lleol, ar draws sefydliadau ac yn genedlaethol.

Mae'r gallu hwn i rannu gwybodaeth yn hanfodol ar gyfer gwireddu'r gweithlu amlddisgyblaethol sydd ei angen arnom dan y modelau gofal newydd, a hebdo bydd y newid yn cael ei arafu. Mae gwybodeg a thechnolegau digidol yn darparu sylfaen ar gyfer gofal diogel o ansawdd uchel. Wrth gael yr holl wybodaeth sydd ei angen am yr unigolyn, neu am grwpiau o unigolion tebyg, bydd modd darparu gwell

canlyniadau drwy helpu clinigwyr ar bob lefel i wneud gwell penderfyniadau. Gall systemau digidol fonitro problemau a allai achosi niwed a thynnu sylw staff fel bod modd iddynt gymryd camau ataliol yn gynnar. Gall technolegau, dyfeisiau a systemau digidol newydd hefyd helpu i sicrhau newid, gan gynorthwyo pobl i symud yn gynt at ffyrdd newydd o weithio, a gwneud hynny mewn ffyrdd sy'n sicrhau ein bod yn cyrraedd yr un safonau diogelwch ac ansawdd clinigol ar draws Cymru.

Ein huchelgais yw darparu llwyfan ar-lein i ddinasyddion, rhoi mwy o reolaeth i bobl a'u galluogi i gymryd rhan weithredol yn eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Bydd hyn yn helpu pobl i wneud dewisiadau doeth am eu triniaeth, gofal a chymorth: dod o hyd i'r gwasanaeth mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion, cyfrannu a rhannu gwybodaeth am eu hiechyd a'u gofal, rheoli apwyntiadau a chyfathrebu gyda gweithwyr proffesiynol, a gweithio gydag eraill i gydlynu'r gofal a'r driniaeth sydd eu hangen, er mwyn eu darparu'n ddi-dor.

Mae technoleg ddigidol yn datblygu'n gyflym tu hwnt, ac rydym yn disgwyl gweld cyfleoedd a heriau newydd drwy gydol cyfnod y cynllun hwn. Nid oes modd rhagweld beth fydd y rheiny, ond byddwn yn fwy hyblyg yn ein hymateb i dechnolegau newydd fel deallusrwydd artifisial, dysgu peiriannau, meddygaeth fanwl a genomeg. Byddwn yn buddsoddi i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol o fewn ein gweithlu ein hunain, er enghraifft i wneud gwell dewis o wybodeg glinigol ac ysgogi prosiectau

trawsnewid digidol. Byddwn hefyd yn sicrhau bod ein pensaernïaeth ddigidol, a'r ffordd rydym yn gweithio'n ddigidol, yn fwy agored i'r byd mawr mewn ffyrdd sy'n cefnogi datblygu economaidd yng Nghymru, ac sy'n cynnig cyfleoedd gyrfa cyffrous, yn ogystal â gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. I wneud hyn, rhaid i ni ganolbwyntio ein hymdrechion drwy ddull gweithredu 'Unwaith i Gymru' gan osod safonau a disgwyliadau a lle mae'n rhaid cael llwyfannau cyffredin a lle mae manteision clir o wneud hynny.

<b>Cam gweithredu</b>	<b>Dyddiad</b>
Cyflymu'r cynnydd tuag at bensaernïaeth ddigidol gwbl integredig yn genedlaethol, cyflwyno System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru a chreu llwyfan digidol ar-lein i ddinasyddion, wrth ochr gwasanaethau eraill sy'n orfodol yn genedlaethol.	<b>0 2018 ymlaen</b>
Buddsoddi yn y sgiliau sydd eu hangen arnom yn y dyfodol yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn yr economi ehangach, i gyflymu newid digidol a sicrhau'r manteision mwyaf i gymdeithas ac economi Cymru.	<b>0 2018 ymlaen</b>
Datblygu dull 'platfform agored' ar gyfer arloesi digidol, drwy gyhoeddi safonau cenedlaethol ar gyfer y ffordd mae meddalwedd a thechnoleg yn cydweithio â'i gilydd, a sut gall partneriaid allanol weithio gyda'r platfform digidol cenedlaethol ac adnoddau data cenedlaethol.	<b>0 2018 ymlaen</b>
Cynyddu'n sylweddol y buddsoddiad mewn seilwaith, technolegau a gallu'r gweithlu digidol, gyda chefnogaeth trefniadau cyflawni ac arweiniad digidol cryfach yn genedlaethol.	<b>0 2019 ymlaen</b>
Sefydlu adnodd data cenedlaethol sy'n caniatáu rhannu gwybodaeth ar raddfa fawr yn ddiogel a phriodol.	<b>Erbyn 2020</b>

### **Cyllid iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy**

Mae'r gwerth yr ydym yn ei osod ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei adlewyrchu yn ein penderfyniadau gwario ar gyfer y dyfodol. Rydym yn gwario dros £9 biliwn yn flynyddol ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, 8% yn fwy fesul pen o'r boblogaeth na'r hyn sy'n cael ei wario yn Lloegr, a dros y ddwy flynedd nesaf byddwn

yn buddsoddi £450 miliwn arall yn y GIG a dros £100 miliwn mewn gofal cymdeithasol.

Nid oedd cylch gorchwyl yr Adolygiad Seneddol yn cynnwys cyllid gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol, ond mae adroddiadau Ymddiriedolaeth Nuffield a'r Sefydliad Iechyd eisoes wedi asesu'r her gyllido hirdymor ar gyfer iechyd, gan osod fframwaith o ddisgwyliadau

o ran effeithlonrwydd a chynaliadwyedd. Gall dadansoddiad annibynnol o'r fath herio penderfyniadau ariannu mewn ffordd dryloyw a gwybodus, ac fe fydd hyn yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y broses o osod cyllideb flynyddol Lywodraeth Cymru.

Mae datblygu fframwaith cyllido cynaliadwy ar gyfer gofal cymdeithasol hirdymor yn dasg dipyn mwy cymhleth. Cymerwyd camau gan Lywodraeth Cymru yn 2011 i leihau'r baich ariannol ar unigolion sy'n gysylltiedig â threfniadau codi tâl presennol, drwy gyflwyno uchafswm y gellid ei godi am ofal amhreswyl ac ymrwymiad i gynyddu swm y cyfalaf y gall unigolion ei gadw heb orfod talu am ofal preswyl.

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth o edrych ar iechyd a gofal cymdeithasol fel un system gyfan, bydd angen i ni wella ein dealltwriaeth o'r ffordd y mae newidiadau mewn demograffeg a ffactorau eraill yn effeithio ar gostau gofal cymdeithasol yn y dyfodol, y rhyngweithio rhwng gwariant ar ofal cymdeithasol ac iechyd yn y tymor hir, a sut y gall integreiddio agosach o amgylch y Nod Pedwarplyg helpu i gydbwysu gwariant ar draws y rhyngwyneb iechyd a gofal cymdeithasol. Hefyd mae angen i ni gael gwell dealltwriaeth o lefelau'r adnodd rydym yn ei fuddsoddi ar hyn o bryd i atal salwch a datblygiad afiechyd.

Bydd angen amser i sicrhau model cyllid cynaliadwy ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a fydd yn parhau'n addas dros gyfnod hir, a bydd trafodaethau i ddod o hyd i'r dull gweithredu cywir o bosib yn parhau tu hwnt i dymor y Cynulliad presennol. Drwy'r cynllun hwn byddwn yn dechrau ar y gwaith hwnnw ar fyrder, gan gomisiynu dadansoddiad newydd o wariant presennol ar iechyd a gofal cymdeithasol, a gweld sut gall mabwysiadu modelau newydd o ofal effeithio ar gostau yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn dechrau sgwrs genedlaethol i edrych ar opsiynau mwy radical ar gyfer ariannu gofal cymdeithasol yn y dyfodol, gan gynnwys sut y gellid defnyddio pwerau codi trethi newydd Cymru i

ddarparu addewid o'r newydd. Bydd hyn yn ystyried cynigion yr Athro Gerry Holtham am ardoll ar gyfer gofal cymdeithasol, y mae Llywodraeth Cymru yn edrych arnynt ar hyn o bryd.

Ar ben ein buddsoddiad parhaus yn y GIG a gwasanaethau cymdeithasol, bydd ein Rhaglen Drawsnewid yn cael ei hategu gan Gronfa Drawsnewid gwerth £100 miliwn. Dyma gyllid am gyfnod cyfyngedig o amser a fydd yn cael ei dargedu tuag at ddatblygu a gweithredu modelau newydd o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor yn gyflym, ar sail eu potensial i gael eu datblygu ar gyfer sylfaen ehangach o'r boblogaeth a'u cysondeb â blaenoriaethau cenedlaethol. Bydd gwerthusiad cadarn o'r buddsoddiad hwn i ddeall beth sy'n gweithio a sut, er mwyn defnyddio'r wybodaeth wrth fuddsoddi ymhellach i drawsnewid gwasanaethau, ac i weld y potensial ar gyfer ehangu ac ymwreiddio cronfa o'r fath i hwyluso newid yn y tymor hir.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn cysoni ffrydiau cyllido eraill sydd eisoes yn bodoli, gan helpu i wella, integreiddio a thrawsnewid gwasanaethau, o amgylch y Rhaglen Drawsnewid. Bydd hyn yn cynnwys y Gronfa Gofal Integredig, y Gronfa Gofal Sylfaenol, cyllid y Cynllun Cyflawni, y Gronfa Cymhorthion ac Addasiadau a ffrydiau cyllido perthnasol eraill. Gallwn ddefnyddio'r dystiolaeth a ddaw wrth werthuso'r Gronfa Drawsnewid i benderfynu sut i ddefnyddio buddsoddiad craidd mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Bydd cyfeirio adnoddau i gefnogi modelau gofal newydd sy'n gyson â'r egwyddorion cynllunio cenedlaethol yn golygu mwy o fuddsoddiad mewn atal ac ymyrryd yn fuan. Er mwyn penderfynu a yw'r newid yn digwydd yn ddigon cyflym, byddwn yn llunio dull o olrhain y newid dros amser, a chyhoeddi'r canlyniadau a geir.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cael y manteision mwyaf yn y tymor canolig o'r buddsoddiad hwn, byddwn yn sicrhau bod systemau cynllunio a llywodraethu mor gyson â phosib ar draws iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, i gael gwared ag unrhyw rwystrau rhag

cyflawni'r modelau gofal newydd hyn. Rydym wedi ymrwymo o hyd i weithredu threfniadau cyllido ar y cyd rhwng y GIG a gwasanaethau cymdeithasol o amgylch grwpiau cleientiaid, er mwyn pwysleisio system iechyd a gofal cymdeithasol di-dor a chynyddu gwerth drwy gysoni'r ffrydiau ariannu yn agosach o amgylch amcanion cyffredin.

Bydd ein gwaith o drawsnewid gofal lleol yn cael cefnogaeth yn y lle cyntaf drwy ein buddsoddiad cyfalaf o £68 miliwn mewn canolfannau iechyd a gofal newydd ar draws Cymru. Byddwn yn adeiladu elfen gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig ac yn ei defnyddio i gefnogi opsiynau tai sy'n gyson â'n gweledigaeth ar gyfer gofal yn nes at y cartref a'r cyfle ar gyfer gwahanol fodolau gwasanaeth. Ein huchelgais yw darparu cyfleusterau modern ac addas i'r diben er mwyn ategu'r modelau gofal newydd, ond bydd angen cydbwysu hyn bob amser gyda chynnal ein seilwaith presennol wrth flaenoriaethu'r defnydd o gyllid cyfalaf. Yn anochel, bydd hyn yn golygu parhau i fuddsoddi yn yr ystad ysbytai, yn ogystal â gwella cyfleusterau gofal sylfaenol, cymunedol a chymdeithasol. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn cynnal adolygiad o

fuddsoddiad mewn rhaglenni cyfalaf ac ystadau i gael dealltwriaeth ehangach o'r buddsoddiad presennol a'r angen ar gyfer y dyfodol. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried sut y gellid defnyddio gwahanol opsiynau cyllido, yn ogystal â lle y gall asedau gwasanaethau cyhoeddus na fyddai fel rheol yn cael eu hystyried fel iechyd a gofal cymdeithasol fod yn rhan o ddull cymunedol ehangach i leoli gwasanaethau. Bydd ein ffordd o edrych ar yr ystad iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol yn cefnogi prif ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus.

Bydd y camau uchod yn cael eu defnyddio wrth ddatblygu dull hirdymor, mwy cynaliadwy i gyllido'r gwasanaeth di-dor yr ydym am ei weld. Bydd y dystiolaeth a gesglir a'r gwelliannau a wneir yn cynnig sylfaen o dystiolaeth i ddangos sut gall penderfyniadau dyrannu adnoddau yn y dyfodol helpu i symud y pwyslais at iechyd poblogaethau, atal, ymyrryd yn gynnar a llwybrau gofal integredig, mewn ffordd sy'n cynnal ansawdd a diogelwch ble bynnag yn y system y bydd pobl yn derbyn gwasanaethau.

<b>Cam gweithredu</b>	<b>Dyddiad</b>
Comisiynu dadansoddiad o wariant iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol a'r berthynas rhyngddynt, gan gynnwys modelau gofal newydd a threfniadau cyllido newydd.	<b>Erbyn diwedd 2018</b>
Datblygu ffordd o olrhain sut mae adnoddau'n cael eu dyrannu ar draws ein system gyfan gan gynnwys drwy fodolau di-dor newydd, llwybrau integredig a threfniadau cyllidebau ar y cyd, gan dynnu sylw at y newid pwyslais at atal.	<b>Erbyn 2019</b>
Cynnal adolygiad o fuddsoddiad cyfalaf ac ystadau, i nodi anghenion ar gyfer y dyfodol a'r ystod lawn o asedau y gellir eu defnyddio i ysgogi newid i wasanaethau.	<b>Erbyn 2019</b>

## Cysylltiad parhaus

Yn unol â'n hymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r 'pum ffordd o weithio', rydym yn benderfynol o wrando ar bob llais, er mwyn adeiladu dealltwriaeth ac ymddiriedaeth o'r ddwy ochr nid yn unig gyda'n dinasyddion, ond hefyd gyda'r rhai sy'n gweithio yn ein gwasanaethau iechyd a gofal, i ddatblygu synnwyr cyffredin o berchnogaeth a chyfrifoldeb. Er mwyn helpu i gyflawni hyn byddwn yn cysylltu yn barhaus ac mewn ffordd integredig. Bydd hyn yn newid dull mewn tair ffordd.

Yn gyntaf rydym am weld gwahanol sefydliadau yn trafod ar y cyd yn hytrach nag ar wahân, boed gyda'r cyhoedd neu'r gweithlu. Bellach mae amrywiol ddyletswyddau cyfreithiol ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i ymgynghori a thrafod, sy'n golygu weithiau bod rhaid gwneud hynny yn unigol, mewn ffordd wahanol. Rydym am ddod â hynny ynghyd fel ei bod yn fwy effeithiol, yn fwy effeithlon ac yn haws i bobl gyfrannu.

Yn ail, rydym am gadw mewn cysylltiad yn barhaus, nid yn achlysurol yn unig. Bydd angen i'n gweledigaeth at y dyfodol newid wrth i heriau a chyfleoedd newydd godi, neu wrth i anghenion a disgwyliadau pobl ddatblygu. Mae datblygiadau digidol yn golygu bod llawer mwy o ffyrdd o gyrraedd at ein poblogaeth a'n gweithlu, ar unwaith,

gan ganiatáu rhyngweithio mwy deinamig. Bydd hyn yn rhan bwysig o'n dull o ddarparu cysylltiad agored, sy'n caniatáu i bobl gyfrannu eu gwybodaeth a'u dewisiadau drwy gydol cyfnod y cynllun hwn.

Yn drydydd, rydym am drafod ar sail mwy holistaidd, er mwyn sicrhau cysylltiad cliriach rhwng ein sgwrsiau ynghylch newidiadau i wasanaethau a'r ffordd y byddant yn cael eu darparu a'u cyllido. I ddechrau, byddwn yn trafod tair thema wahanol gyda'n gilydd i dynnu sylw at y cysylltiad rhyngddynt: ein gweledigaeth at y dyfodol o drefn system gyfan gyda mwy o bwyslais ar lesiant ac atal salwch; y Nod Pedwarplyg a'r Egwyddorion Cynllunio sef ein syniad canolog a'n blaenoriaethau ar gyfer newid; a'r Modelau Cyllido ar gyfer y Dyfodol a fydd yn edrych i weld sut byddwn yn talu am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y tymor hir, gan eu gwneud yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Byddwn felly yn datblygu rhaglen drafod gynhwysfawr sy'n cael ei darparu ar y cyd gan bob partner, sy'n defnyddio llwyfannau digidol wrth ochr digwyddiadau a chyfathrebu rheolaidd ac sy'n adlewyrchu Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd. Bydd hyn yn golygu sgwrs barhaus gyda dinasyddion, cymunedau a phoblogaeth Cymru yn gyffredinol am ddyfodol ein system iechyd a gofal cymdeithasol.

## Cam gweithredu

Sefydlu 'cynnig cyfranogaeth' cenedlaethol newydd lle gall pobl gymryd rhan mewn penderfyniadau angenrheidiol am ddyfodol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Ategu hyn â rhaglen drafod "Dyfodol Iechyd a Gofal Cymdeithasol" dros sawl blwyddyn, ar y cyd rhwng yr holl bartneriaid (Llywodraeth Cymru, y GIG, Awdurdodau Lleol, y Trydydd Sector, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac eraill).

## Dyddiad

**Erbyn diwedd 2018**

**Erbyn 2019**



## **Y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Mae ein staff, eu sgiliau, eu profiadau a'u gwerthoedd yn hanfodol bwysig ar gyfer system GIG a gofal cymdeithasol lwyddiannus. Er mwyn darparu system iechyd a gofal gwirioneddol ddi-dor, mae angen newid sylfaenol yn ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n cyfrif fel gweithlu, a'r ffordd rydym yn cefnogi cyfraniad pob unigolyn. Rhaid meddwl am y person gorau i ddarparu gofal ac arfogi unigolion â'r sgiliau a'r arbenigedd i fodloni anghenion modelau newydd Cymru, beth bynnag eu hymlyniad proffesiynol, cyflogwr neu leoliad.

Mae hefyd yn golygu gwerthfawrogiad tecach o'r swyddogaeth eang ac amrywiol y mae pobl yn ei chwarae yn y nod cyffredin o ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, ar draws system eang o ddarpariaeth sylfaenol a chymunedol i wasanaethau gofal mewn ysbyty neu arbenigol. Yn ogystal â gofyn am barch cydradd rhwng gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal, mae hefyd yn

golygu cydnabod a chefnogi swyddogaeth hanfodol gweithlu anffurfiol o ofalwyr di-dâl a gwirfoddolwyr, na fyddai system ar gael hebddynt.

Mae'r modelau newydd gorau sy'n cael eu datblygu yng Nghymru yn rhannu nodwedd gyffredin: dull gweithredu amlddisgyblaethol eang lle gall pobl hyfforddedig weithio'n effeithiol gyda'i gilydd a rhannu'r holl wybodaeth berthnasol ddiweddaraf am amgylchiadau a dewisiadau unigolion, er mwyn gwneud y defnydd gorau posib o sgiliau a phrofiadau pawb. Er mwyn ategu'r modelau gofal newydd hyn, rhaid i ni gryfhau'r gefnogaeth, hyfforddiant, datblygiad a gwasanaethau sydd ar gael i'r gweithlu, gan ganolbwyntio ar adeiladu sgiliau ar draws gyrfa gyfan a chefnogi eu hiechyd a'u llesiant. Bydd hyn yn eu galluogi i barhau i ofalu, cynnal a gwella eu hiechyd corfforol a meddyliol eu hunain, a gweithredu fel modelau rôl i annog eraill i wneud yr un fath.



Wrth i fwy o fodolau iechyd a gofal di-dor ymddangos gydag anogaeth a chefnogaeth y cynllun hwn, bydd angen dull gweithredu clir a chyson i ddatblygu a chynllunio'r holl weithlu er mwyn datblygu a chyflwyno'r ffyrdd newydd o weithio gorau ar draws Cymru.

I wneud hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu strategaeth hirdymor ar gyfer y gweithlu mewn partneriaeth â'r GIG a Llywodraeth Leol, y sector gwirfoddol ac annibynnol yn ogystal â rheoleiddwyr, cyrff proffesiynol a darparwyr addysg.

Bydd y strategaeth newydd hon yn rhoi sylw i alwad yr Adolygiad Seneddol am gynllunio gweithlu rhanbarthol ar y cyd, gyda phwyslais ar ehangu sgiliau cyffredinol a galluogi staff i weithio ar frig eu cyfres o sgiliau ac ar draws ffiniau proffesiynol, yn unol ag athroniaeth Gofal Iechyd Darbodus. Bydd yn cynnwys camau gweithredu i sicrhau gwell data a chynnal gwaith modelu o anghenion yn y dyfodol. Bydd hefyd yn datblygu ymrwymadau ar gyfer darparu gofal cyfrwng Cymraeg, ac mewn ieithoedd eraill. Ar gyfer y gweithlu eu hunain, bydd y strategaeth yn golygu eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi ar bob cam o'u gyrfa, gyda chefnogaeth mynediad at gyfleoedd addysg, hyfforddi a datblygu parhaus. Bydd yn agor cyfleoedd i gyrraedd at lwybrau gyrfa hyblyg a rhoi'r cyfleoedd gorau posib ar gyfer dysgu amlbroffesiwn. Drwy'r strategaeth, rhaid i ni alluogi pob unigolyn i ddarparu gofal unigol wrth ochr triniaeth ardderchog ar sail anghenion clinigol a llesiant.

Bydd recriwtio a chadw hefyd yn thema allweddol. Er bod ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eisoes yn denu rhywfaint o'r talent gorau yn y byd, nid ydym yn cymryd hyn yn ganiataol. Er gwaetha'n bwriad at y dyfodol a lefelau uwch nag erioed yn y gweithlu, mae gennym dystiolaeth bod manau gwan mewn rhai gwasanaethau neu feysydd sy'n effeithio ar y ddarpariaeth nawr. Mae'r rhaglen Hyfforddi, Gweithio, Byw wedi dechrau gwneud gwahaniaeth i recriwtio yn y GIG ond mae angen i ni wneud mwy os ydym am barhau i ddenu a chadw'r goreuon, a chynnig

amgylchedd a diwylliant deniadol ar gyfer rhai sy'n mentro i'r gweithlu am y tro cyntaf.

Mae Cymru'n wlad o gymunedau amrywiol sy'n ysbrydoli. Y GIG ac awdurdodau lleol yw'r ddau gyflogwr mwyaf. I wneud y gorau o'r manteision hyn, bydd angen i fyrdau iechyd ac awdurdodau lleol gydweithio gyda darparwyr lleol i sefydlu ymgyrchoedd ar y cyd, gwneud y defnydd gorau o adnoddau a recriwtio'r bobl orau. Wrth wneud hynny bydd angen nodi anghenion recriwtio a staffio cyffredin a datblygu pecynnau cyflogaeth deniadol a all helpu i ddenu unigolion a theuluoedd i hyfforddi, gweithio a byw yng nghymunedau Cymru.

Nodwedd allweddol o unrhyw gynnig cyflogaeth cadarnhaol yw'r cyfle i ddysgu a datblygu. Yma gall modelau cymunedol newydd o ofal gynnig cyfle gwirioneddol i ailwerthuso addysg a hyfforddiant a datblygu llwybrau gyrfa mwy hyblyg. Bydd anghenion addysg a hyfforddiant penodol yn wahanol ar gyfer pob grŵp staff a phroffesiwn. Bydd ein dull gweithredu cenedlaethol yn cael ei arwain gan fodolau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol a fydd yn gofyn am sgiliau sy'n canolbwyntio ar atal a llesiant, wedi'u hategu gan sgiliau cyffredinol a all fod yn llwyfan i bobl addasu ac amrywio drwy gydol eu gyrfaoedd. Er mwyn i'r ailweithio radical hwn fod yn bosib, bydd angen i bob sefydliad iechyd a gofal cymdeithasol sefydlu partneriaethau strategol gyda darparwyr addysg ar draws Cymru – ar bob lefel o'r ysgolion i'r prifysgolion ac ym mhob sector lle daw'r gweithlu.

Byddwn hefyd yn dechrau adeiladu capasiti mewn meysydd craidd drwy sefydlu nifer fach o academiâu dysgu dwys sy'n canolbwyntio ar y gallu proffesiynol y bydd ei angen arnom yn y dyfodol. Byddant yn gweithredu fel canolfannau ar gyfer datblygu sgiliau ac arbenigedd angenrheidiol, rhannu gwybodaeth ac arfer da, trosi ymchwil yn ganlyniadau, a gweithio gyda phartneriaid allanol. Gall graddedigion o'r academiâu gymryd rhan arweiniol wrth ailddylunio systemau/polisïau mewn meysydd allweddol, a gweithredu fel eiriolwyr gwybodus dros newid.

Roedd yr Adolygiad Seneddol yn cydnabod mai un o'r prif ffactorau wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel yw llesiant a chyfranogaeth y staff, felly un dimensiwn o'r Nod Pedwarplyg yw: "cyfoethogi llesiant, gallu ac ymgysylltiad y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol". Ein nod yw gweld GIG Cymru yn gyflogwr rhagorol wrth gefnogi llesiant yn y gweithle a gweithlu iach, gan adeiladu ar y gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo yn y GIG. Rydym am weld y GIG yn arwain newid yn y maes hwn ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, ac i sectorau eraill, drwy rannu arfer da, canllawiau, ac arfau hyrwyddo a gwerthuso ar-lein.

Bydd angen arweinyddiaeth ddeinamig i ysgogi newid, grymuso eraill ac arwain drwy esiampl, yn ogystal â chreu amodau ar gyfer arloesi a gwella parhaus i wella ansawdd a gwerth y gwasanaethau. Gan adeiladu ar dystiolaeth am raglenni effeithiol, byddwn yn datblygu fframwaith cymwyseddau arweinyddiaeth newydd a rhaglenni datblygu. Bydd iaith a dull gweithredu cyffredin yn caniatáu i arweinwyr ddilyn llwybrau gyrfa ar draws sefydliadau a sectorau, gyda chefnogaeth fframwaith cynhwysfawr o raglenni datblygu arweinyddiaeth a secondiadau wedi'u targedu.

### Cam gweithredu

Datblygu Strategaeth y Gweithlu newydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, sy'n cynnwys cynllunio modelau gweithlu newydd, cryfhau sgiliau ataliol llesiant a chyffredinol, sgiliau yn y Gymraeg, datblygu partneriaethau addysg a hyfforddiant strategol, cefnogi datblygiad gydol gyrfa ac amrywiaeth ar draws y gweithlu ehangach.

Cysoni gwaith recriwtio ar draws sectorau a gyda phartneriaid i ddenu pobl dalentog i hyfforddi, gweithio a byw yng Nghymru.

Gwneud GIG Cymru yn esiampl fel cyflogwr ar llesiant yn y gweithle a gweithlu iach, gyda'r bwriad o rannu'r dull gweithredu hwn ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol a'r economi ehangach.

Sefydlu academiâu dysgu dwys sy'n canolbwyntio ar allu proffesiynol ac arweiniad y bydd ei angen arnom yn y dyfodol.

### Dyddiad

**Erbyn diwedd 2019**

**O 2018 ymlaen**

**O 2018 ymlaen**

**Erbyn diwedd 2019**

### Arweiniad a chyfeiriad cenedlaethol

Mae pob system wedi'i llunio'n berffaith i gael y canlyniadau a gaiff. Prif bwrpas y Cynllun hwn, felly yw ailedrych ar ysgogiadau polisi er mwyn iddynt gefnogi a chymell penderfyniadau sy'n gyson â'n gweledigaeth. Yn benodol, bydd trefniadau cynllunio, perfformiad ac atebolrwydd yn cael eu hail-lunio i yrru gwasanaethau tuag at y weledigaeth. Yn gymesur â'r dull gweithredu hwn, byddwn yn darparu arweiniad cryfach i benderfyniadau ar lefel genedlaethol.

### Cynllunio integredig cenedlaethol a rhanbarthol

Byddwn yn gwella gallu'r system i gynllunio'n effeithiol ac yn effeithlon. Blaenoriaeth bwysig fydd gweithio gyda sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol a phartneriaid eraill i symleiddio a chysoni'r dirwedd cynllunio.

Bydd cyfres o 'ddatganiadau ansawdd' yn cael eu datblygu ar gyfer y GIG sy'n disgrifio'r canlyniadau

a'r safonau yr ydym yn disgwyl eu gweld mewn gwasanaethau safon uchel sy'n canolbwyntio ar y claf. Bydd y rhain yn gosod ein dyheadau i'w cyflawni yn gyson ar draws Cymru. Byddant yn rhan o'r goruchwyllo cenedlaethol drwy'r Fframwaith Cynllunio a'r drefn rheoli perfformiad.

Drwy gynllun clinigol cenedlaethol, byddwn yn gosod ein dull gweithredu strategol ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n diwallu anghenion pobl Cymru. Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut y dylid darparu gwasanaethau arbenigol a gwasanaethau mewn ysbytai, a'r sgiliau a'r technolegau angenrheidiol i'w hategu, fel rhan o'r cynnig iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.

Bydd y GIG a llywodraeth leol yn cydweithio drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac yn adeiladu perthynas gref gydag amrywiol sefydliadau sy'n cyfrannu at y gwaith o gyflawni ein Gweledigaeth. Rydym hefyd yn cydnabod bod elfennau eraill yn penderfynu ar iechyd pobl, gan gynnwys eu blynyddoedd cynnar, ysgolion, cymunedau a gwaith. Felly mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhan ganolog o'r agenda ehangach hon i ddatblygu gwaith effeithiol a meddwl tymor hirach ar lefel leol.

Rydym yn disgwyl i'r GIG a Gofal Cymdeithasol chwarae rhan lawn yn y partneriaethau hyn. Byddwn yn disgwyl gweld gwaith effeithiol a llyfn ar lefel leol ranbarthol a chenedlaethol.

Credwn y bydd cynllunio integredig yn cynnig gwell gwerth am arian i ddinasyddion, a bod ganddo'r gallu i ysgogi newid yn gynt a chyda mwy o wrpas strategol. Byddwn yn parhau i gryfhau ein dull gweithredu, gan adeiladu ar y fframwaith statudol presennol, ac ymestyn ein dull gweithredu tu hwnt i wasanaethau iechyd:

- Byddwn yn cefnogi cynlluniau integredig cryf ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Bydd Cynlluniau Ardal y Byrddau yn darparu llwyfan cadarn ar gyfer trefniadau cyllidebu a chomisiynu ar y cyd.

Bydd Cynlluniau Ardal a strategaethau comisiynu ar y cyd yn ganolog i'r agenda bartneriaeth, lle bydd gan y sector dai swyddogaeth amlycach.

- Bydd y broses Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cael ei chryfhau. Yng nghyd-destun strategaethau gwasanaethau clinigol hirdymor sy'n canolbwyntio ar boblogaeth a Chynlluniau Ardal ar y cyd, bydd Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn parhau i fod yn sylfaen gadarn ar gyfer cynllunio iechyd. Disgwylir i'r cynlluniau hyn gael eu datblygu yn agos iawn gyda'r partneriaid allweddol ac i'r cynlluniau fod yn gyson ac ategu ei gilydd. Ein nod yw gweld yr holl gynlluniau lleol yn cael eu datblygu a'u cytuno mewn partneriaeth.
- Bydd cynllun cenedlaethol yn cael ei ddatblygu ar gyfer y GIG, gan ddod â Chynlluniau Tymor Canolig Integredig holl Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd y GIG ynghyd i gynhyrchu darlun cenedlaethol. Bydd hyn yn dangos y cynnydd ar draws Cymru gyfan dros y blynyddoedd nesaf. Bydd dimensiwn cenedlaethol y system gynllunio yn datblygu wrth i ni gryfhau sylfeini cynlluniau lleol a rhanbarthol.

Disgwylwch i Gynllun Ardal pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Chynlluniau Tymor Canolig Integredig pob Bwrdd Iechyd fod yn gysylltiedig â'i gilydd a bod yn gyson, gan gynnwys gyda chynlluniau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae pob un yn ateb diben unigol, ond yn ategu ei gilydd. Dros gyfnod o amser, bydd tair agwedd y dull gweithredu hwn – cynlluniau iechyd ar lefel bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd lleol, cynlluniau iechyd a gofal cymdeithasol rhanbarthol, a chynlluniau iechyd cenedlaethol – yn uno i wireddu cynlluniau system gyfan. Byddwn yn gweithio gyda'r partneriaid cyflawni er mwyn sicrhau bod anghenion a dewisiadau lleol a rhanbarthol wedi'u cydbwyso'n briodol gyda'r cyfeiriad a'r blaenoriaethau cenedlaethol.

Cam gweithredu	Dyddiad
Cryfhau gallu cynllunio ledled y system iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.	<b>O 2018 ymlaen</b>
Cefnogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu Cynlluniau Ardal gan osod modelau newydd o ofal di-dor, cyllidebau cyfun a threfniadau comisiynu ar y cyd.	<b>O 2018 ymlaen</b>
Datblygu 'datganiadau ansawdd' amrywiol sy'n gosod y canlyniadau a'r safonau yr ydym yn disgwyl eu gweld mewn gwasanaethau safon uchel sy'n canolbwyntio ar y claf.	<b>Erbyn diwedd 2019</b>
Symleiddio a chysoni dull gweithredu Cynllun Tymor Canolig Integredig presennol y GIG a datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig Cenedlaethol i gryfhau cyfeiriad strategol a blaenoriaethau.	<b>Erbyn diwedd 2019</b>
Datblygu cynllun clinigol ar gyfer gwasanaethau iechyd arbenigol yn gosod ein dull strategol o ddarparu gwasanaethau diogel o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion pobl Cymru.	<b>Erbyn diwedd 2019</b>

### Rheoli perfformiad ac atebolrwydd integredig

Roedd yr Adolygiad Seneddol yn cynnig newidiadau i fesurau a rheoli perfformiad er mwyn llywio'r holl system tuag at ffyrdd newydd o weithio a'r Nod Pedwarplyg. Roedd yn argymhell 'cyfuniad ehangach a mwy creadigol' o gymorth cenedlaethol, cymhellion, meincnodi, rheoleiddio, atebolrwydd a thryloywder. Wrth i'r cynlluniau ddatblygu i gynnwys cynlluniau cyflawni ar draws pob dimensiwn y Nod Pedwarplyg, bydd angen i reoli perfformiad ac atebolrwydd wneud yr un fath.

Mae integreiddiad parhaus gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a datblygiad ffyrdd newydd o weithio ar y cyd yn gyfle gwirioneddol i edrych o'r newydd ar y ffyrdd y mae perfformiad y system iechyd a gofal cymdeithasol yn gyfan yn cael ei fesur a'i adrodd. Mae hefyd yn gyfle i symud y pwyslais o'r hyn y mae'r system yn ei wneud i'r hyn y mae'n ei gyflawni i bobl, yn nhermau canlyniadau iechyd a llesiant. Yn bwysicach fyth, mae'n gyfle i ddatblygu mentrau ac atebolrwydd ar y cyd, yn arbennig yng nghyd-destun gwaith rhanbarthol ac integredig.

Gall y ffyrdd presennol o weithio arwain at gymhellion a chosbau sy'n gwneud synnwyr yng nghyd-destun sefydliadau unigol, ond sy'n gwrthdaro â'i gilydd wrth edrych arnynt o safbwynt system gyfan.

Mae bodolaeth tri Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol – ar gyfer y GIG, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd y Cyhoedd – yn dangos sut mae ein system wedi esblygu mewn gwahanol ffyrdd. Byddwn yn adolygu bob un o'r fframweithiau hyn ac yn eu cysoni â'r Nod Pedwarplyg, gan ddefnyddio dangosyddion cyffredin lle bynnag y bo'n bosib. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau partner edrych ar berfformiad o safbwynt canlyniadau, gan roi sylfaen ddeddfwriaethol gref i'r dull hwn. Bydd un drefn canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol genedlaethol, yn unol â'r Nod Pedwarplyg, yn pwysleisio pwysigrwydd yr hyn y mae gwasanaethau yn ei gyflawni i gymunedau ac unigolion.

Mae'n hanfodol i'n hymagwedd at ganlyniadau a rheoli perfformiad yn y dyfodol roi cyfle i bobl adrodd eu hasesiad o ganlyniadau iechyd a'u profiad o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid i'r canlyniadau a ddefnyddiwn fod yn rai cywir yn glinigol ac yn broffesiynol, a bod yn ddealladwy i'r cyhoedd. Bydd cyfuno'r fframweithiau hyn yn ei gwneud yn llawer haws sefydlu atebolrwydd ar y cyd i ddarparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Wrth i ni ddatblygu fframwaith canlyniadau integredig, byddwn hefyd yn symud tuag at fonitro ac arolygu

ar y cyd. Eisoes ceir parodrwydd i edrych ar waith partneriaeth rhwng Arolygiaethau ac fe ddylai hyn symud tuag at ddull cyfun o sicrhau craffu priodol ar ddarpariaeth iechyd a gofal. Mae'n gynnar ar y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'u Cynlluniau Ardal, ond wrth i'r gwaith aeddfedu dylai cwmpas yr arolygu rheoleiddiol gynnwys cadernid gwaith rhanbarthol ar y cyd, sicrwydd cyllidebu cyfun, trefniadau comisiynu ar y cyd a darparu gwasanaethau integredig.

<b>Cam gweithredu</b>	<b>Dyddiad</b>
Cyflwyno 'ysgogiadau ar gyfer newid', cyfuniad o gymhellion a chosbau, er mwyn ysgogi perfformiad, gwobrwyo llwyddiant a rhoi sylw i fethiant i gyflawni.	<b>Erbyn diwedd 2018</b>
Datblygu systemau adborth newydd ar iechyd poblogaethau a defnyddwyr gwasanaethau, ac adroddiadau clir ar ganlyniadau, er mwyn cynnwys dinasyddion yn y gwaith.	<b>Erbyn diwedd 2019</b>
Gweithredu un fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn gyson â'r Nod Pedwarplyg.	<b>Erbyn diwedd 2020</b>
Cyflwyno arolygu ar y cyd, i gynnwys gwaith partneriaeth, cyllidebau cyfun a chomisiynu ar y cyd.	<b>O 2020 ymlaen</b>

### **Swyddogaeth Gweithrediaeth Genedlaethol**

Drwy gydol y cynllun hwn rydym yn pwysleisio pwysigrwydd cydweithio effeithiol ar lefel ranbarthol, yn arbennig cysondeb cynllunio a gweithredol rhwng byrddau partneriaeth rhanbarthol a byrddau iechyd. Nodwyd sut y byddai hynny'n ysgogi trawsnewid, a'r ffordd y byddai rhaglen drawsnewid genedlaethol yn helpu i ysgogi'r gweithgarwch hwn yn gyson ac ar fyrder.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth at y dyfodol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, rhaid i'n system fod yn ddeinamig ac anelu at newid a gwelliant

parhaus. Bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn cadw eu cyfrifoldebau statudol, gan adeiladu perthynas a chyflawni ar gyfer eu poblogaethau wrth ochr eu partneriaid. Rhaid iddynt hefyd weithredu'n effeithiol o fewn cyd-destun un system genedlaethol a chyfrannu at fanteision i boblogaeth Cymru yn gyfan.

Mae 'gweithrediaeth genedlaethol' gryfach i GIG Cymru, yn unol ag argymhelliad yr Adolygiad Seneddol, yn rhan hanfodol o wneud ein system yn addas ar gyfer y dyfodol. Bydd swyddogaeth y weithrediaeth genedlaethol yn darparu arweinyddiaeth gadarn a

chyfeiriad strategol sy'n ofynnol gan unrhyw system gymhleth os yw i fedru newid. Bydd swyddogaeth weithredol genedlaethol yn sicrhau dull cyson o gynllunio, gosod blaenoriaethau ar sail canlyniadau, rheoli perfformiad ac atebolrwydd. Bydd yn cefnogi a herio byrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG ac yn sicrhau datblygiad gallu ar draws y system.

Mae'n system iechyd genedlaethol yn cynnwys nifer o wasanaethau sydd eisoes yn cael eu cynllunio neu ddarparu yn genedlaethol. Ymysg yr enghreifftiau mae rhai gwasanaethau digidol a gwybodeg, cydwasanaethau gweinyddol, comisiynu gwasanaethau ambiwlans a gwasanaethau arbenigol. Mae'r rhain yn wasanaethau cenedlaethol pwysig, a nifer ohonynt yn allweddol ar gyfer hwyluso'r trawsnewid strategol sydd ei angen. Maent yn cael eu rheoli ar hyn o bryd drwy amrywiol systemau â threfniadau llywodraethu cymhleth.

Mae strwythur a maint ein system yn rhoi cyfle i ni fabwysiadu technolegau a systemau digidol newydd

yn gyflym, er mwyn sicrhau canlyniadau cyson i ddinasyddion, defnyddio prynu a chomisiynu i sicrhau mwy o werth am arian a dod o hyd i arbedion costau sylweddol. Rhaid i ni nawr greu swyddogaeth gweithrediaeth genedlaethol sy'n dod â'r prif wasanaethau hyn ynghyd mewn ffordd fwy cyson a syml, gan sicrhau'r manteision gorau posib i'n system yng Nghymru.

Bydd y swyddogaeth genedlaethol hon hefyd yn edrych tuag allan, gan adeiladu perthynas gadarnhaol gyda llywodraeth leol a phartneriaid strategol eraill o fewn trefn system gyfan. Bydd yn edrych ar ffyrdd o sicrhau mwy o fanteision i'r economi ehangach yng Nghymru drwy gysylltu'n fwy hyderus â phartneriaid allanol, gan gynnwys diwydiant. Bydd hyn yn elfen bwysig o'r ffordd y mae'n system gyfan o iechyd a gofal yn cyfrannu at gyflawni'r uchelgeisiau traws-sector a nodir yn strategaeth Ffyniant i Bawb Llywodraeth Cymru.

<b>Cam gweithredu</b>	<b>Dyddiad</b>
Dod â gweithgareddau cynllunio, cyflawni a pherfformiad priodol ynghyd fel swyddogaeth Gweithrediaeth GIG Cymru, yn atebol yn uniongyrchol i Brif Weithredwr GIG Cymru.	<b>Erbyn diwedd 2018</b>
Cadarnhau perthynas lywodraethiant rhwng Llywodraeth Cymru, Gweithrediaeth GIG Cymru, y Rhaglen Drawsnewid a rhanddeiliaid allweddol eraill.	<b>Erbyn diwedd 2018</b>
Adolygu swyddogaethau cynghori arbenigol, swyddogaethau cenedlaethol (ee Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru , Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys) a rhaglenni cyflawni cenedlaethol eraill, gyda'r nod o grynhoi gweithgarwch cenedlaethol ac egluro llywodraethiant ac atebolrwydd.	<b>Erbyn diwedd 2019</b>